

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adrannau 122(10)(b), (c), (e), (h), (l), (m), (o), (q) ac (r) o Ddeddf Caffael 2023, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2024 Rhif (Cy.)

CAFFAEL CYHOEDDUS,
CYMRU

Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at Ddeddf Caffael 2023 (p. 54) ("Deddf 2023").

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol, gan gynnwys y rhai sy'n nodi cymhwysiad y Rheoliadau a diffiniadau a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch tryloywder caffaeliadau a gyflawnir gan awdurdodau contractio, sy'n awdurdodau Cymreig datganoledig, neu sydd i'w trin fel awdurdod Cymreig datganoledig o dan Ddeddf 2023. Mae rheoliad 5(1) yn darparu bod rhaid yn gyntaf gyhoeddi hysbysiadau neu ddogfennau penodol neu wybodaeth benodol, neu fod rhaid eu rhoi drwy eu cyhoeddi, ar y platfform digidol canolog sy'n system ar-lein a ddarperir gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU ("Swyddfa'r Cabinet") yn y cyfeiriad gwefan canlynol: <https://www.gov.uk/find-tender>.

Mae rheoliad 5(2) yn darparu y cydymffurfir â rheoliad 5(1) pan fo'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth wedi ei gyflwyno neu wedi ei chyflwyno i'r platfform digidol Cymreig, a phan fo Swyddfa'r Cabinet wedi rhoi gwybod i'r awdurdod contractio y cyflwynwyd yr hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth yn llwyddiannus neu ei fod neu ei bod yn hygyrch i gyflenwyr ac i aelodau o'r cyhoedd. Y platfform digidol Cymreig yw'r system ar-lein a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'w defnyddio gan awdurdodau contractio y mae rheoliad 2 yn gymwys iddynt. Gellir

dod o hyd i'r platfform hwn ar y wefan a ganlyn:
<https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru>.

Mae rheoliadau 6 i 8 yn gwneud darpariaeth ynghylch y modd y mae gwybodaeth graidd y cyflenwr (megis gwybodaeth personau cysylltiedig cyflenwr) yn cael ei rhannu ag awdurdod contractio gyda golwg ar ddyfarnu contract cyhoeddus neu gontract hysbysadwy sydd o dan y trothwy. Maent yn darparu bod rhaid i'r awdurdod gael cadarnhad bod y cyflenwr wedi rhannu'r wybodaeth honno drwy'r platfform digidol canolog, neu ei fod wedi cofrestru ar y platfform hwnnw cyn dyddiad cau. Mae rheoliadau 10 i 13 yn nodi pa wybodaeth sy'n wybodaeth graidd y cyflenwr.

Mae rheoliadau 14 i 42 yn gwneud darpariaeth ynghylch pa wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiadau neu ddogfennau y mae rhaid eu cyhoeddi, neu wybodaeth y mae rhaid ei chyhoeddi, o dan Ddeddf 2023. Mewn rhai achosion, mae darpariaeth yn pennu gwybodaeth ychwanegol i'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Ddeddf 2023 ei hun yn unol â'r pwerau i wneud rheoliadau a ddarperir gan y Ddeddf honno. Er enghraifft, mae rheoliad 18 yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad, yn ogystal â'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn unol ag adran 17(2)(a) o Ddeddf 2023 fel y'i caniateir yn benodol gan adran 17(2)(b) o'r Ddeddf honno.

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth sy'n ychwanegu at Ddeddf 2023 heblaw mewn perthynas â mesurau tryloywder.

Mae rheoliad 43 ac Atodlen 1 yn pennu'r categorïau o wasanaethau sy'n cymhwys fel "gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn" at ddiben adran 9 o Ddeddf 2023. Os yw gwasanaeth yn wasanaeth "cyffyrddiad ysgafn", caniateir ei gaffael yn unol â rheolau sy'n wahanol i'r rhai sy'n gymwys i'r mathau eraill o gontract, y mae eu caffael wedi ei gwmpasu gan Ddeddf 2023. Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn nodi pa un neu ragor o'r gwasanaethau hynny sy'n "gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn neilltuadwy" at ddiben adran 33 o Ddeddf 2023, fel y caiff awdurdod contractio ddarparu mai dim ond cwmni cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus cymhwysol, fel y'i diffinnir yn adran 33(5) o Ddeddf 2023, a all wneud cais am gontract ar gyfer y gwasanaethau hynny.

Mae rheoliadau 44 a 45 ac Atodlenni 2 a 3 yn diffinio'r termau "central government authority" ("*awdurdod llywodraeth ganolog*") a "works" ("*gweithiau*") fel y'u defnyddir yn Neddf 2023. Yn Atodlen 2, mae'r endidau a ddiffinnir fel awdurdodau llywodraeth ganolog wedi eu rhestru o dan y penawdau "awdurdod arweiniol" ac "awdurdod perthynol" er mwyn darparu cysondeb â'r ffordd y

mae'r awdurdodau Cymreig wedi eu cwmpasu gan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau, fel y'u nodir yn yr atodiadau i'r Cytundeb hwnnw.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys Deddf 2023, ac i is-ddeddfwriaeth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn a gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adrannau 122(10)(b), (c), (e), (h), (l), (m), (o), (q) ac (r) o Ddeddf Caffael 2023, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2024 Rhif (Cy.)

**CAFFAEL CYHOEDDUS,
CYMRU**

Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

CYNNWYS

RHAN 1

Cyflwyniad

1. Enwi a dod i rym
2. Cymhwyso
3. Dehongli

RHAN 2

Tryloywder

4. Dehongli Rhan 2
5. Cyhoeddi hysbysiadu ar y platfform digidol canolog
6. Rhannu gwybodaeth graidd y cyflenwr drwy'r platfform digidol canolog
7. Gwybodaeth y cyflenwr ar gyfer contractau hysbysadwy sydd o dan y trothwy
8. Gwybodaeth graidd y cyflenwr: platfform ddim yn gweithio, sefyllfa frys, cyfleustodau preifat
9. Codau adnabod unigryw ac esemptiad rhag eu cyhoeddi ar y platfform digidol Cymreig neu system ar-lein arall

10. Gwybodaeth sylfaenol y cyflenwr
11. Gwybodaeth y cyflenwr o ran ei sefyllfa economaidd ac ariannol
12. Gwybodaeth y cyflenwr o ran ei bersonau cysylltiedig
13. Gwybodaeth y cyflenwr o ran seiliau dros wahardd
14. Gwybodaeth yr awdurdod contractio
15. Pwnc y contract
16. Hysbysiadau piblinell
17. Hysbysiadau caffael arfaethedig
18. Hysbysiadau ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad
19. Hysbysiadau tendro: gweithdrefn agored
20. Hysbysiadau tendro: gweithdrefn hyblyg gystadleuol
21. Hysbysiadau tendro: fframweithiau
22. Hysbysiadau tendro: marchnadoedd dynamig ac eithrio marchnadoedd dynamig cyfleustodau cymhwysol
23. Hysbysiadau tendro: hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol
24. Dogfennau tendro cysylltiedig
25. Hysbysiadau tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy
26. Hysbysiadau marchnad ddynamig (gan gynnwys hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol)
27. Hysbysiadau tryloywder
28. Hysbysiadau dyfarnu contract ac eithrio'r rhai a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat
29. Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat
30. Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat: dyfarniadau uniongyrchol
31. Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat: fframweithiau
32. Crynodebau asesu
33. Hysbysiadau manylion contract: gweithdrefn agored neu weithdrefn hyblyg gystadleuol
34. Hysbysiadau manylion contract: fframweithiau
35. Hysbysiadau manylion contract: contractau cyhoeddus a ddyfernir yn unol â fframweithiau
36. Hysbysiadau manylion contract: dyfarniad uniongyrchol

37. Hysbysiadau manylion contract: contractau sydd o dan y trothwy
38. Hysbysiadau terfynu caffaeliad
39. Hysbysiadau cydymffurfedd taliadau
40. Hysbysiadau cyflawni contract ac eithrio mewn perthynas â therfynu'n llawn
41. Hysbysiadau newid contract
42. Hysbysiadau terfynu contract

RHAN 3

Darpariaethau eraill sy'n ychwanegu at Ddeddf Caffael 2023

43. Pennu gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn a gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn neilltuadwy
44. Awdurdodau llywodraeth ganolog
45. Ystyr "works" ym mharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael 2023

RHAN 4

Diwygiadau canlyniadol

46. Diwygio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
47. Diwygio Deddf Caffael 2023
48. Diwygio Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003
49. Diwygio Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004
50. Diwygio Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
51. Diwygio Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Canlyniadol ac Atodol) 2018
52. Diwygio Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021
53. Diwygio Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023
54. Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 — Gwasanaethau
cyffyrddiad ysgafn

ATODLEN 2 — Awdurdodau
llywodraeth ganolog

ATODLEN 3 — Gweithgareddau
gweithiau

Mae Gweinidogion Cymru(1) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 9(2), 33(8), 69(4), 87(7), 95(1), (2) a (3), 97(1) a (2), 121(1) a (2), 122(3) a 125 o Ddeddf Caffael 2023(2), a pharagraff 5(1) o Atodlen 1 iddi.

Yn unol ag adran 121(3) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli barn cyfleustodau preifat, yn ogystal ag unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

Yn unol ag adran 122(10)(b), (c), (e), (h), (l), (m), (o), (q) ac (r) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio Rhan 1 a rheoliad 47(1) a (2), i rym yr un pryd ag y daw adran 11 o Ddeddf Caffael 2023 i rym at unrhyw ddiben(3).

(3) Daw Rhan 1 a rheoliad 47(1) a (2) i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn.

Cymhwyso

2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i—

-
- (1) Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod priodol" fel y diffinnir "appropriate authority" yn adran 123(1) o Ddeddf Caffael 2023, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodir yn adran 111(1) o'r Ddeddf honno.
- (2) 2023 p. 54.
- (3) Daw adran 11 i rym ar ddiwrnod a bennir gan un o Weinidogion y Goron drwy reoliadau; a chaniateir i ddiwrnodau gwahanol gael eu pennu at ddibenion gwahanol. Gweler adran 127(2) o Ddeddf Caffael 2023.

- (a) awdurdod contractio sy'n awdurdod Cymreig datganoledig, gan gynnwys mewn perthynas â chaffaeliad o dan drefniant caffael Cymreig datganoledig, a
- (b) awdurdod contractio sydd i'w drin fel awdurdod Cymreig datganoledig o dan adran 111 o Ddeddf Caffael 2023.

(2) Yn y rheoliad hwn—

mae i “awdurdod Cymreig datganoledig” yr ystyr a roddir i “devolved Welsh authority” gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(1);

mae i “trefniant caffael Cymreig datganoledig” yr ystyr a roddir i “devolved Welsh procurement arrangement” yn adran 114(2) o Ddeddf Caffael 2023.

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i “awdurdod contractio” yr ystyr a roddir i “contracting authority” gan adran 2(1) o Ddeddf 2023;

ystyr “Deddf 2023” (“*the 2023 Act*”) yw Deddf Caffael 2023;

ystyr “GGG” (“*CPV*”) yw'r Eirfa Gaffael Gyffredin fel y'i mabwysiadwyd gan Reoliad (EC) Rhif 2195/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 5 Tachwedd 2002 ar yr Eirfa Gaffael Gyffredin (2).

RHAN 2

Tryloywder

Dehongli Rhan 2

4. Yn y Rhan hon—

mae i “amcangyfrif o werth” yr ystyr a roddir i “estimated value” gan adran 4 o Ddeddf 2023;

mae i “awdurdod priodol” yr ystyr a roddir i “appropriate authority” gan adran 123 o Ddeddf 2023;

-
- (1) p. 32. Mewnosodwyd adran 157A gan Ddeddf Cymru 2017 (p. 4), Rhan 1, adran 4(1) ac wedyn fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1), Atodlen 1, paragraff 2(19) a Deddf Pysgodfeydd 2020 (p. 22), adran 45(3).
 - (2) EUR 2195/2002, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1319; mae hwn yn gyfeiriad at y fersiwn a ddargadwyd o Reoliad (EC) 2195/2002. Mae'r fersiwn honno a ddargadwyd ar gael ar-lein yn <https://www.legislation.gov.uk/eur/2002/2195/contents>.

mae i “caffaeliad” yr ystyr a roddir i “procurement” gan adran 1(1) o Ddeddf 2023;

mae i “cod adnabod unigryw” (“*unique identifier*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 9;

ystyr “cofrestr pobl â rheolaeth sylweddol” (“*PSC register*”) yw’r gofrestr y mae’n ofynnol i gwmni ei chadw o dan adran 790M o DC 2006 (dyletswydd i gadw cofrestr)(1);

mae i “contract consesiwn” yr ystyr a roddir i “concession contract” gan adran 8 o Ddeddf 2023;

mae i “contract cyfleustodau” yr ystyr a roddir i “utilities contract” gan adran 6 o Ddeddf 2023;

mae i “contract cyfundrefn arbennig” yr ystyr a roddir i “special regime contract” gan adran 10(6) o Ddeddf 2023;

mae i “contract cyffyrddiad ysgafn” yr ystyr a roddir i “light touch contract” gan adran 9 o Ddeddf 2023;

mae i “contract cyhoeddus” yr ystyr a roddir i “public contract” gan adran 3 o Ddeddf 2023;

mae i “contract trosadwy” yr ystyr a roddir i “convertible contract” gan adran 74(1) o Ddeddf 2023;

mae i “cwmni cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus” yr ystyr a roddir i “public service mutual” gan adran 33(6) o Ddeddf 2023;

mae i “cyflenwr gwaharddedig” yr ystyr a roddir i “excluded supplier” gan adran 57(1) o Ddeddf 2023;

mae i “cyfleustod” yr ystyr a roddir i “utility” gan adran 35(4) o Ddeddf 2023;

mae i “cyfleustod preifat” yr ystyr a roddir i “private utility” gan adran 2(2) o Ddeddf 2023;

mae i “cyfnod tendro” yr ystyr a roddir i “tendering period” gan adran 54(5) o Ddeddf 2023;

ystyr “Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau” (“*GPA*”) yw’r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau a lofnodwyd ym Marrakesh ar 15 Ebrill 1994(2), fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd;

ystyr “Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel” (“*Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership*”) yw’r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel, a lofnodwyd yn Santiago ar 8 Mawrth 2018, gan

(1) Diwygiwyd gan Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (p. 26), Atodlen 3(1), paragraff 1 ac O.S. 2017/693.

(2) Gellir gweld y Cytundeb yma: https://www.wto.org/english/tratop_e/gproc_e/gpa_1994_e.htm

gynnwys Protocol Derbyn Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel, a lofnodwyd yn Auckland a Bandar Seri Begawan ar 16 Gorffennaf 2023⁽¹⁾, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;

mae i “dangosyddion perfformiad allweddol” yr ystyr a roddir i “key performance indicators” gan adran 52(4) o Ddeddf 2023;

mae i “darparwr cyflogaeth â chymorth” yr ystyr a roddir i “supported employment provider” gan adran 32(4) o Ddeddf 2023;

ystyr “DC 2006” (“CA 2006”) yw Deddf Cwmnïau 2006⁽²⁾;

mae i “dogfen dendro gysylltiedig” yr ystyr a roddir i “associated tender document” gan adran 21(4) o Ddeddf 2023;

mae i “dosbarthiad daearyddol” (“*geographical classification*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 15(2);

mae i “fframwaith” yr ystyr a roddir i “framework” gan adran 45(2) o Ddeddf 2023;

mae i “fframwaith agored” yr ystyr a roddir i “open framework” gan adran 49(1) o Ddeddf 2023;

mae i “gweithdrefn agored” yr ystyr a roddir i “open procedure” gan adran 20(2)(a) o Ddeddf 2023;

mae i “gweithdrefn hyblyg gystadleuol” yr ystyr a roddir i “competitive flexible procedure” gan adran 20(2)(b) o Ddeddf 2023;

mae i “gweithiau” (“*works*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 45;

mae i “gwybodaeth yr awdurdod contractio” (“*contracting authority information*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 14;

mae i “gwybodaeth graidd y cyflenwr” (“*core supplier information*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 6(9);

ystyr “heb fod ar gael” (“*unavailable*”) yw bod y platfform digidol Cymreig heb fod yn weithredol am ddim llai na 4 awr;

mae i “hysbysiad caffael arfaethedig” yr ystyr a roddir i “planned procurement notice” gan adran 15(2) o Ddeddf 2023;

(1) Gellir dod o hyd i'r Cytundeb ar-lein yn: <https://www.mfat.govt.nz/en/trade/free-trade-agreements/free-trade-agreements-in-force/cptpp/comprehensive-and-progressive-agreement-for-trans-pacific-partnership-text-and-resources/>

(2) 2006 p. 46.

mae i “hysbysiad dyfarnu contract” yr ystyr a roddir i “contract award notice” gan adran 50(2) o Ddeddf 2023;

mae i “hysbysiad manylion contract” yr ystyr a roddir i “contract details notice” gan adran 53(2) o Ddeddf 2023;

mae i “hysbysiad marchnad ddynamig” yr ystyr a roddir i “dynamic market notice” gan adran 39 o Ddeddf 2023;

mae i “hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol” yr ystyr a roddir i “qualifying utilities dynamic market notice” gan adran 40(6) o Ddeddf 2023;

mae i “hysbysiad piblinell” yr ystyr a roddir i “pipeline notice” gan adran 93(3) o Ddeddf 2023;

mae i “hysbysiad tendro” yr ystyr a roddir i “tender notice” gan adran 21(2) o Ddeddf 2023;

mae i “hysbysiad tryloywder” yr ystyr a roddir i “transparency notice” gan adran 44(2) o Ddeddf 2023;

mae i “hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad” yr ystyr a roddir i “preliminary market engagement notice” gan adran 17(2) o Ddeddf 2023;

mae i “marchnad ddynamig” yr ystyr a roddir i “dynamic market” gan adran 34(8) o Ddeddf 2023;

mae i “meini prawf dyfarnu” yr ystyr a roddir i “award criteria” gan adran 23(1) o Ddeddf 2023;

mae i “menter fach a chanolig ei maint” (“*small and medium-sized enterprise*”) yr ystyr a roddir gan adran 123(1) o Ddeddf 2023;

mae i “person cysylltiedig” yr ystyr a roddir i “connected person” gan baragraff 45 o Atodlen 6 i Ddeddf 2023;

ystyr “platfform digidol canolog” (“*central digital platform*”) yw'r system ar-lein a sefydlwyd gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet(1);

ystyr “platfform digidol Cymreig” (“*Welsh digital platform*”) yw'r system ar-lein a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'w defnyddio gan awdurdodau contractio y mae rheoliad 2 yn gymwys iddynt;

mae i “proses ddethol gystadleuol” yr ystyr a roddir i “competitive selection process” gan adran 46(10) o Ddeddf 2023;

mae i “pwnc y contract” (“*contract subject-matter*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 15;

(1) Gellir cyrchu'r platfform digidol canolog yn: <https://www.gov.uk/find-tender>.

mae i “rheolaeth sylweddol” yr ystyr a roddir i “significant control” gan adran 790C(2) o DC 2006(1);

ystyr “Swyddfa'r Cabinet” (“*Cabinet Office*”) yw adran Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gefnogi prif weinidog a Chabinet y Deyrnas Unedig, gan weithredu ar ran y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet;

mae i “system ar-lein arall” (“*alternative online system*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 5(11).

Cyhoeddi hysbysiadau ar y platfform digidol canolog

5.—(1) Rhaid cyhoeddi neu roi hysbysiad, dogfen neu wybodaeth a gyhoeddir neu a roddir o dan ddarpariaeth o Ddeddf 2023 a restrir ym mharagraff (5) drwy gyhoeddi'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth gan yr awdurdod contractio ar y platfform digidol canolog yn gyntaf.

(2) Oni bai bod paragraff (3) neu baragraff (6) yn gymwys, mae'r gofyniad ym mharagraff (1) i'r awdurdod contractio gyhoeddi neu roi hysbysiad, dogfen neu wybodaeth ar y platfform digidol canolog yn gyntaf wedi ei fodloni pan fo'r awdurdod contractio wedi cyflwyno'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth i'r platfform digidol Cymreig ac—

- (a) bo'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet wedi rhoi gwybod i'r awdurdod contractio fod yr hysbysiad wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus ar gyfer ei gyhoeddi i'r platfform digidol canolog, neu fod y ddogfen neu'r wybodaeth wedi ei chyflwyno'n llwyddiannus ar gyfer ei chyhoeddi iddo, neu
- (b) bo modd i gyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd gyrchu'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth ar y platfform digidol canolog.

(3) Os yw'r platfform digidol Cymreig heb fod ar gael fel na ellir bodloni'r gofyniad ym mharagraff (2), caniateir i awdurdod contractio gyhoeddi hysbysiad, dogfen neu wybodaeth—

- (a) ar y platfform digidol canolog, neu
- (b) ar y platfform digidol canolog drwy ddefnyddio system ar-lein arall.

(4) Pan fo paragraff (3) yn gymwys bydd y gofyniad ym mharagraff (1) wedi ei fodloni—

- (a) pan fo'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet wedi rhoi gwybod i'r awdurdod contractio fod yr hysbysiad wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus ar gyfer ei gyhoeddi i'r

(1) Mewnosodwyd gan Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (p. 26), Atodlen 3(1), paragraff 1.

plattfform, neu fod y ddogfen neu'r wybodaeth wedi ei chyflwyno'n llwyddiannus ar gyfer ei chyhoeddi iddo, neu

- (b) pan fo modd i gyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd gyrchu'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth ar y plattfform digidol canolog.

(5) Y darpariaethau perthnasol o Ddeddf 2023 yw—

- (a) adran 15(1) (hysbysiadau caffael arfaethedig)(1),
- (b) adran 17(1)(a) (hysbysiadau ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad),
- (c) adran 21(1) (hysbysiadau tendro),
- (d) adran 24(4) (mireinio meini prawf dyfarnu), mewn cysylltiad ag ailgyhoeddi hysbysiadau tendro yn unig,
- (e) adran 31(5) (addasu caffaeliad adran 19), mewn cysylltiad ag ailgyhoeddi hysbysiadau tendro yn unig,
- (f) adran 39(2) (hysbysiadau marchnad ddynamig: bwriad i sefydlu marchnad ddynamig)(2),
- (g) adran 39(3) (hysbysiadau marchnad ddynamig: sefydlu marchnad ddynamig),
- (h) adran 39(4) (hysbysiadau marchnad ddynamig: addasiadau i farchnad ddynamig),
- (i) adran 39(5) (hysbysiadau marchnad ddynamig: diwedd marchnad ddynamig),
- (j) adran 44(1) (hysbysiadau tryloywder),
- (k) adran 50(1) (hysbysiadau dyfarnu contract),
- (l) adran 52(3) (dangosyddion perfformiad allweddol),
- (m) adran 53(1) (hysbysiadau manylion contract),
- (n) adran 53(3) (copïau o gontractau),
- (o) adran 55(2) (hysbysiadau terfynu caffaeliad),
- (p) adran 69(1) (hysbysiadau cydymffurfedd taliadau),
- (q) adran 71(2)(b) (cyflawni contract: asesu perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol),
- (r) adran 71(5) (cyflawni contract: torri contract cyhoeddus neu fethu â chyflawni),
- (s) adran 75(1) (hysbysiadau newid contract),

(1) Mae hysbysiadau caffael arfaethedig yn cynnwys hysbysiadau caffael arfaethedig cymhwysol (gweler adran 15(3) o Ddeddf 2023).

(2) Mae hysbysiadau marchnad ddynamig o dan adran 39(2) yn cynnwys hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol (gweler adran 40(6) o Ddeddf 2023).

- (t) adran 75(5) (hysbysiadau newid contract: addasiadau a wneir ar y cyd),
- (u) adran 77(1) (cyhoeddi addasiadau),
- (v) adran 80(1) (hysbysiadau terfynu contract),
- (w) adran 87(1) (hysbysiadau tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy),
- (x) adran 87(3) (hysbysiadau manylion contract yn dilyn contractau hysbysadwy sydd o dan y trothwy),
- (y) adran 93(2) (hysbysiadau piblinell), a
- (z) adran 94(3) (esemptiadau cyffredinol rhag dyletswyddau i gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth: gwybodaeth yn cael ei chadw yn ôl).

(6) Os yw'r holl amodau sy'n gymwys ym mharagraff (7) wedi eu bodloni, caiff yr awdurdod contractio gyhoeddi neu roi'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth ar y platfform digidol Cymreig neu, os nad yw ar gael, ar system ar-lein arall ac wrth wneud hynny mae'r awdurdod i'w drin fel pe bai am y tro yn bodloni'r gofyniad ym mharagraff (1).

(7) Yr amodau yw—

- (a) yn achos hysbysiad a grybwyllir ym mharagraff (8), nad oes llai na 4 awr wedi mynd heibio ers cyflwyno'r hysbysiad ar gyfer ei gyhoeddi i'r platfform digidol canolog,
- (b) yn achos unrhyw hysbysiad arall, unrhyw ddogfen arall neu unrhyw wybodaeth arall, nad oes llai nag 48 awr wedi mynd heibio ers cyflwyno'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth ar gyfer ei gyhoeddi neu ei chyhoeddi i'r platfform digidol canolog,
- (c) nad yw'r awdurdod contractio wedi cael cadarnhad gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet fod yr hysbysiad wedi ei gyhoeddi ar y platfform digidol canolog yn llwyddiannus, neu fod y ddogfen neu'r wybodaeth wedi ei chyhoeddi arno'n llwyddiannus, a
- (d) nad oes modd i aelodau o'r cyhoedd gyrru'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth ar y platfform digidol canolog.

(8) Yr hysbysiadau yw hysbysiad tryloywder, hysbysiad dyfarnu contract neu hysbysiad manylion contract sy'n ymwneud ag—

- (a) dyfarnu contract cyhoeddus yn uniongyrchol o dan baragraffau 13 a 14 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023 (sefyllfa frys), neu
- (b) dyfarnu contract cyhoeddus yn uniongyrchol o dan adran 42 o Ddeddf 2023 (dyfarniad uniongyrchol er mwyn gwarchod bywyd, etc.).

(9) Ond nid yw'r awdurdod contractio i gael ei drin mwyach fel pe bai am y tro yn bodloni'r gofyniad ym mharagraff (1) os yw'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn rhoi gwybod i'r awdurdod contractio fod cyflwyno'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth i'r platfform digidol canolog wedi ei wrthod.

(10) Rhaid i awdurdod contractio sy'n defnyddio'r platfform digidol Cymreig neu system ar-lein arall yn unol â pharagraff (6) gydweithredu â'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet er mwyn sicrhau bod yr hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth o dan sylw wedi hynny—

- (a) yn cael ei gyhoeddi neu ei chyhoeddi ar y platfform digidol canolog, a
- (b) yn gallu cael ei gyrchu neu ei chyrcu gan aelodau o'r cyhoedd ar y system honno.

(11) Ystyr "system ar-lein arall" yw system ar-lein ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am gaffael—

- (a) sy'n system rad ac am ddim ac ar gael yn rhwydd i gyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd,
- (b) sy'n system hygyrch i bobl anabl, ac
- (c) nad y platfform digidol canolog na'r platfform digidol Cymreig mohoni.

(12) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth yn rhywle heblaw ar y platfform digidol canolog, y platfform digidol Cymreig neu system ar-lein arall, ond ni chaiff yr awdurdod wneud hynny cyn cydymffurfio â gofynion paragraff (1) neu (6).

Rhannu gwybodaeth graidd y cyflenwr drwy'r platfform digidol canolog

6.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i awdurdod contractio pan fo cyflenwr yn rhannu gwybodaeth graidd y cyflenwr â'r awdurdod yn ystod gweithdrefn a restrir ym mharagraff (2) gyda golwg ar ddyfarnu contract cyhoeddus.

(2) Y gweithdrefnau yw—

- (a) gweithdrefn agored,
- (b) gweithdrefn hyblyg gystadleuol,
- (c) dyfarniad uniongyrchol o dan adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023, neu
- (d) proses ddethol gystadleuol ar gyfer fframweithiau o dan adran 46 o Ddeddf 2023.

(3) Os rhennir gwybodaeth graidd y cyflenwr—

- (a) yn ystod gweithdrefn agored, neu
- (b) yn ystod gweithdrefn hyblyg gystadleuol,

rhaid i'r awdurdod contractio gael cadarnhad gan y cyflenwr ynghylch y materion ym mharagraff (5) cyn diwedd y cyfnod tendro.

(4) Os rhennir gwybodaeth graidd y cyflenwr—

- (a) cyn dyfarniad uniongyrchol o dan adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023, neu
- (b) yn ystod proses ddethol gystadleuol ar gyfer fframweithiau o dan adran 46 o'r Ddeddf honno,

rhaid i'r awdurdod contractio gael cadarnhad gan y cyflenwr ynghylch y materion ym mharagraff (5) cyn dyfarnu'r contract cyhoeddus.

(5) Y materion yw bod y cyflenwr—

- (a) wedi cofrestru ar y platfform digidol canolog,
- (b) wedi cyflwyno gwybodaeth graidd ddiweddaraf y cyflenwr i'r platfform hwnnw, ac
- (c) wedi rhannu'r wybodaeth graidd ddiweddaraf honno am y cyflenwr â'r awdurdod contractio drwy gyfleuster sydd wedi ei ddarparu ar y platfform hwnnw at ddiben rhannu gwybodaeth graidd cyflenwyr.

(6) Mae paragraff (7) yn gymwys—

- (a) pan fo cyflenwr wedi rhannu gwybodaeth graidd ddiweddaraf y cyflenwr ag awdurdod contractio yn ystod gweithdrefn a restrir ym mharagraff (2), a
- (b) pan fo gwybodaeth graidd y cyflenwr yn newid wedi hynny, a bo'r cyflenwr yn rhannu â'r awdurdod contractio, cyn i'r contract cyhoeddus gael ei ddyfarnu, wybodaeth graidd y cyflenwr sydd wedi ei diweddarau neu wedi ei chywiro.

(7) Rhaid i'r awdurdod contractio gael cadarnhad pellach gan y cyflenwr ynghylch y materion ym mharagraff (8) cyn dyfarnu'r contract cyhoeddus.

(8) Y materion yw bod y cyflenwr—

- (a) wedi cyflwyno i'r platfform digidol canolog wybodaeth graidd y cyflenwr sydd wedi ei diweddarau neu ei chywiro, a
- (b) wedi rhannu'r wybodaeth graidd y cyflenwr sydd wedi ei diweddarau neu ei chywiro â'r awdurdod contractio drwy gyfleuster a ddarperir ar y platfform hwnnw at ddiben rhannu gwybodaeth graidd cyflenwyr.

(9) Yn yRhan hon, ystyr “gwybodaeth graidd y cyflenwr” yw—

- (a) gwybodaeth sylfaenol y cyflenwr, a nodir yn rheoliad 10,
- (b) gwybodaeth y cyflenwr o ran ei sefyllfa ariannol ac economaidd, a nodir yn rheoliad 11,
- (c) gwybodaeth y cyflenwr o ran ei bersonau cysylltiedig, a nodir yn rheoliad 12, a

(d) gwybodaeth y cyflenwr o ran seiliau dros wahardd, a nodir yn rheoliad 13.

(10) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriad at gyfleuster a ddarperir ar y plattform digidol canolog yn cynnwys cyfeiriad at gyfleuster i lawrlwytho gwybodaeth sydd i'w hanfon ymlaen at awdurdod contractio gan gyflenwr.

(11) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 8.

Gwybodaeth y cyflenwr ar gyfer contractau hysbysadwy sydd o dan y trothwy

7.—(1) Cyn i gyflenwr gymryd rhan mewn caffaeliad hysbysadwy sydd o dan y trothwy ac a gyflawnir gan awdurdod contractio, rhaid i'r awdurdod sicrhau bod y cyflenwr wedi cofrestru ar y plattform digidol canolog.

(2) Rhaid i'r awdurdod contractio gael cadarnhad cofrestru gan y cyflenwr cyn dyfarnu'r contract hysbysadwy sydd o dan y trothwy.

(3) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “caffaeliad hysbysadwy sydd o dan y trothwy” (“*notifiable below-threshold procurement*”) yw dyfarnu contract hysbysadwy sydd o dan y trothwy, ymrwymo iddo a'i reoli;

mae i “contract hysbysadwy sydd o dan y trothwy” yr ystyr a roddir i “notifiable below-threshold contract” gan adran 87(4) o Ddeddf 2023.

Gwybodaeth graidd y cyflenwr: plattform ddim yn gweithio, sefyllfa frys, cyfleustodau preifat

8.—(1) Pan na fo modd i awdurdod contractio, mewn cysylltiad â gwybodaeth graidd y cyflenwr a rennir yn ystod gweithdrefn agored neu weithdrefn hyblyg gystadleuol, gael cadarnhad gan y cyflenwr ynghylch y materion yn rheoliad 6(5) cyn diwedd y cyfnod tendro oherwydd y rheswm ym mharagraff (2), mae paragraff (3) yn gymwys.

(2) Y rheswm yw nad oedd modd i'r cyflenwr gofrestru'n rhesymol ar y plattform digidol canolog, cyflwyno gwybodaeth iddo, neu ddefnyddio cyfleuster ar gyfer rhannu gwybodaeth drwyddo, oherwydd nad oedd y plattform hwnnw yn gweithio'n briodol yn ystod unrhyw gyfnod cyn diwedd y cyfnod tendro.

(3) Rhaid i'r awdurdod contractio gael cadarnhad gan y cyflenwr ynghylch y materion yn rheoliad 6(5) cyn gynted ag y bo'n ymarferol a pha un bynnag cyn dyfarnu'r contract.

(4) Mae rheoliad 6 yn gymwys yn achos dyfarnu contract cyhoeddus yn uniongyrchol yn unol â pharagraffau 13 a 14 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023 (sefyllfa frys), ond gan ddarllen rheoliad 6—

- (a) fel pe bai'r cyfeiriad ym mharagraff (4) at yr awdurdod contractio yn cael cadarnhad cyn dyfarnu'r contract cyhoeddus yn gyfeiriad at yr awdurdod yn cael cadarnhad cyn gynted ag y bo'n ymarferol a pha un bynnag cyn dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad manylion contract, a
- (b) fel pe bai paragraffau (6) i (8) wedi eu hepgor.

(5) Nid yw rheoliad 6 yn gymwys i gyfleustod preifat yn achos dyfarnu contract cyhoeddus yn uniongyrchol yn unol â pharagraffau 13 a 14 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023 (sefyllfa frys).

Codau adnabod unigryw ac esemptiad rhag eu cyhoeddi ar y platfform digidol Cymreig neu system ar-lein arall

9.—(1) Yn y Rhan hon, ystyr “cod adnabod unigryw”—

- (a) yn achos caffaeliad, yw'r cod unigryw a ddyrennir gan y platfform digidol canolog pan gyhoeddir yr hysbysiad cyntaf sy'n ymwneud â'r caffaeliad ar y platfform hwnnw, heblaw o dan yr amgylchiadau a nodir yn is-baragraff (b),
- (b) yn achos caffaeliad pan fo newid wedi bod i ddyfarniad uniongyrchol yn unol ag adran 43 o Ddeddf 2023, yw'r cod unigryw a ddyrennir gan y platfform digidol canolog pan gyhoeddir yr hysbysiad tryloywder sy'n ymwneud â'r contract ar y platfform hwnnw,
- (c) yn achos contract, y cod unigryw sy'n galluogi'r sawl a fo'n darllen hysbysiad sy'n cyfeirio at y contract i wahaniaethu rhwng y contract hwnnw a chontractau eraill sydd wedi eu dyfarnu o dan yr un broses gaffael,
- (d) yn achos marchnad ddynamig, y cod unigryw a ddyrennir gan y platfform digidol canolog pan gyhoeddir y cyntaf o'r hysbysadau a ganlyn ar y platfform hwnnw mewn perthynas â'r farchnad ddynamig—
 - (i) unrhyw hysbysiad piblinell,
 - (ii) unrhyw hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad, neu
 - (iii) yr hysbysiad marchnad ddynamig cyntaf, ac
- (e) yn achos—
 - (i) cyflenwr,
 - (ii) awdurdod contractio,
 - (iii) person sy'n cyflawni caffaeliad, neu ran o gaffaeliad, ar ran awdurdod contractio, neu

- (iv) person heblaw awdurdod contractio sy'n sefydlu marchnad ddynamig yn unol ag adran 35(3) o Ddeddf 2023,

y cod unigryw a gyflwynir i'r plattfform digidol canolog ac a gydnabyddir gan y plattfform hwnnw neu, pan na chyflwynir ac na chydnabyddir cod o'r fath, y cod unigryw a ddyrennir gan y plattfform hwnnw pan yw'r person yn cofrestru ar y plattfform hwnnw.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys pan fo awdurdod contractio yn cyhoeddi hysbysiad, dogfen neu wybodaeth a grybwyllir yn rheoliad 5(5) ar y plattfform digidol Cymreig neu, os nad yw ar gael, ar system ar-lein arall o dan reoliad 5(6).

(3) Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod contractio gyhoeddi unrhyw god adnabod unigryw yn unol â'r Rhan hon hyd nes y cyhoeddir yr hysbysiad hwnnw, y ddogfen honno neu'r wybodaeth honno wedi hynny ar y plattfform digidol canolog o dan reoliad 5(10).

Gwybodaeth sylfaenol y cyflenwr

10.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth sylfaenol y cyflenwr.

(2) Pan fo cyflenwr yn unigolyn, yr wybodaeth yw—

- (a) enw'r cyflenwr,
- (b) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr,
- (c) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr,
- (d) pan fo gan y cyflenwr wefan, cyfeiriad y wefan,
- (e) rhif cofrestru TAW y cyflenwr (o fewn yr ystyr a roddir i "VAT registration number" yn adran 5A(6) o Ddeddf Treth ar Werth 1994(1)), os yw'n gymwys, ac
- (f) manylion unrhyw gymhwyster perthnasol neu unrhyw sicrwydd masnach perthnasol a ddelir gan yr unigolyn, gan gynnwys—
 - (i) yn achos cymhwyster, enw'r person neu'r corff a ddyfarnodd y cymhwyster, enw'r cymhwyster a'r dyddiad y cafodd ei ddyfarnu, neu
 - (ii) yn achos sicrwydd masnach, enw'r person neu'r corff a ddyfarnodd y cofrestrriad, rhif cyfeirnod y sicrwydd a'r dyddiad y rhoddwyd y sicrwydd.

(3) Pan na fo'r cyflenwr yn unigolyn, yr wybodaeth yw—

- (a) enw'r cyflenwr,

(1) 1994 p. 23. Mewnosodwyd adran 5A gan Ddeddf Trethi (Ar ôl y Cyfnod Pontio) 2020 (p. 26), Atodlen 3(1), paragraff 2.

- (b) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr,
- (c) cyfeiriad cofrestredig y cyflenwr neu gyfeiriad ei brif swyddfa,
- (d) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr,
- (e) pan fo'r cyflenwr yn marchnata ei nwyddau, ei wasanaethau neu ei weithiau ar-lein, cyfeiriad y wefan berthnasol,
- (f) ffurf gyfreithiol y cyflenwr a'r gyfraith y'i llywodraethir odani,
- (g) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, y dyddiad y cofrestrodd y cyflenwr o dan y Ddeddf honno,
- (h) pan na fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006—
 - (i) unrhyw ddyddiad cyfwerth â'r dyddiad a grybwyllir yn is-baragraff (g), neu
 - (ii) pan na fo dyddiad cyfwerth, y dyddiad y dechreuodd y cyflenwr fasnachu,
- (i) rhif cofrestru TAW y cyflenwr (o fewn yr ystyr a roddir i "VAT registration number" yn adran 5A(6) o Ddeddf Treth ar Werth 1994), os yw'n gymwys,
- (j) manylion unrhyw gymhwyster perthnasol neu unrhyw sicrwydd masnach perthnasol a ddelir gan y cyflenwr, gan gynnwys—
 - (i) yn achos cymhwyster, enw'r person neu'r corff a ddyfarnodd y cymhwyster, enw'r cymhwyster a'r dyddiad y cafodd ei ddyfarnu, neu
 - (ii) yn achos sicrwydd masnach, enw'r person neu'r corff a ddyfarnodd y cofrestriad, rhif cyfeirnod y sicrwydd a'r dyddiad y rhoddwyd y sicrwydd, a
- (k) a yw'r cyflenwr—
 - (i) yn fenter fach a chanolig ei maint,
 - (ii) yn gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio ac sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,
 - (iii) yn ddarparwr cyflogaeth â chymorth, neu
 - (iv) yn gwmni cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus.

Gwybodaeth y cyflenwr o ran ei sefyllfa economaidd ac ariannol

11.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth y cyflenwr o ran ei sefyllfa economaidd ac ariannol.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) yn achos cyflenwr yr oedd yn ofynnol i'w gyfrifon gael eu harchwilio ar gyfer dwy flwyddyn ariannol ddiweddaraf y cyflenwr yn unol â Rhan 16 o DC 2006, copi o'r cyfrifon hynny,
- (b) yn achos cyflenwr yr oedd yn ofynnol i'w gyfrifon gael eu harchwilio ar gyfer blwyddyn ariannol ddiweddaraf y cyflenwr yn unol â Rhan 16 o DC 2006, ond nid y flwyddyn ariannol yn union cyn honno, copi o'r cyfrifon hynny,
- (c) yn achos cyflenwr yr oedd yn ofynnol i'w gyfrifon gael eu harchwilio ar gyfer dwy flwyddyn ariannol ddiweddaraf y cyflenwr yn unol â gofyniad tramor cyfwerth â Rhan 16 o DC 2006, copi o'r cyfrifon hynny,
- (d) yn achos cyflenwr yr oedd yn ofynnol i'w gyfrifon gael eu harchwilio ar gyfer blwyddyn ariannol ddiweddaraf y cyflenwr yn unol â gofyniad tramor cyfwerth â Rhan 16 o DC 2006, ond nid y flwyddyn ariannol yn union cyn honno, copi o'r cyfrifon hynny, neu
- (e) yn achos unrhyw gyflenwr arall—
 - (i) os oedd y cyflenwr mewn busnes am y ddwy o flynyddoedd ariannol mwyaf diweddar y cyflenwr, cyfrifon neu wybodaeth arall am y ddwy flynedd hynny, neu
 - (ii) os oedd y cyflenwr mewn busnes am flwyddyn ariannol ddiweddaraf y cyflenwr ond nid y flwyddyn ariannol yn union cyn hynny, cyfrifon neu wybodaeth arall ar gyfer blwyddyn ariannol ddiweddaraf y cyflenwr,

sy'n gyfwerth â gwybodaeth a gynhwysir mewn cyfrifon a archwilir yn unol â Rhan 16 o DC 2006, i'r graddau y gellir rhoi'r cyfrifon hynny neu'r wybodaeth arall honno yn rhesymol.

(3) Ym mharagraff (2)(a) a (b) mae i "blwyddyn ariannol" yr un ystyr â "financial year" yn adran 390 o DC 2006.

Gwybodaeth y cyflenwr o ran ei bersonau cysylltiedig

12.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth y cyflenwr o ran ei bersonau cysylltiedig.

(2) Yr wybodaeth yw'r wybodaeth yn y rheoliad hwn ar gyfer pob person cysylltiedig i'r cyflenwr.

(3) Mae paragraff (4) yn nodi'r wybodaeth—

- (a) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006,

- (b) pan fo'r person cysylltiedig yn berson â rheolaeth sylweddol dros y cyflenwr, ac
 - (c) pan fo'r person cysylltiedig yn gofrestradwy.
- (4) Yr wybodaeth yw—
- (a) enw, dyddiad geni a chenedligrwydd y person cysylltiedig,
 - (b) cyfeiriad cyflwyno'r person cysylltiedig,
 - (c) pa un neu ragor o'r amodau penodedig yn Rhan 1 o Atodlen 1A i DC 2006 sy'n gymwys,
 - (d) y dyddiad pan ddaeth y person cysylltiedig yn gofrestradwy fel person â rheolaeth sylweddol, os yw'n gymwys, ac
 - (e) enw'r gofrestr pobl â rheolaeth sylweddol y mae'r person cysylltiedig wedi ei gofrestru arni fel person â rheolaeth sylweddol, os yw'n gymwys.
- (5) Mae paragraff (6) yn nodi'r wybodaeth—
- (a) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006,
 - (b) pan fo'r person cysylltiedig yn endid cyfreithiol perthnasol, ac
 - (c) pan fo'r person cysylltiedig yn gofrestradwy.
- (6) Yr wybodaeth yw—
- (a) enw'r person cysylltiedig,
 - (b) cyfeiriad cofrestredig y person cysylltiedig neu gyfeiriad ei brif swyddfa,
 - (c) cyfeiriad cyflwyno'r person cysylltiedig,
 - (d) ffurf gyfreithiol y person cysylltiedig a'r gyfraith y'i llywodraethir odani,
 - (e) pa un neu ragor o'r amodau penodedig yn Rhan 1 o Atodlen 1A i DC 2006 sy'n gymwys,
 - (f) y dyddiad pan ddaeth y person cysylltiedig yn gofrestradwy fel endid cyfreithiol perthnasol, os yw'n gymwys, ac
 - (g) enw'r gofrestr pobl â rheolaeth sylweddol y mae'r person cysylltiedig wedi ei gofrestru arni fel endid cyfreithiol perthnasol, os yw'n gymwys.
- (7) Mae paragraff (8) yn nodi'r wybodaeth—
- (a) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, a
 - (b) pan fo'r person cysylltiedig—
 - (i) yn gyfarwyddwr neu'n gyfarwyddwr cysgodol i'r cyflenwr, a
 - (ii) yn unigolyn.
- (8) Yr wybodaeth yw—

- (a) enw, dyddiad geni a chenedligrwydd y person cysylltiedig,
 - (b) cyfeiriad cyflwyno'r person cysylltiedig, ac
 - (c) y wlad neu'r wladwriaeth (neu'r rhan o'r Deyrnas Unedig) y mae'r person cysylltiedig yn preswyllo ynddi fel arfer.
- (9) Mae paragraff (10) yn nodi'r wybodaeth—
- (a) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, a
 - (b) o ran y person cysylltiedig—
 - (i) pan fo'n gyfarwyddwr neu'n gyfarwyddwr cysgodol i'r cyflenwr, a
 - (ii) pan na fo'n unigolyn.
- (10) Yr wybodaeth yw—
- (a) enw'r person cysylltiedig;
 - (b) cyfeiriad cofrestredig y person cysylltiedig neu gyfeiriad ei brif swyddfa,
 - (c) cyfeiriad cyflwyno'r person cysylltiedig,
 - (d) ffurf gyfreithiol y person cysylltiedig a'r gyfraith y'i llywodraethir odani, ac
 - (e) pan fo'r person cysylltiedig yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, rhif cofrestru'r person a roddwyd o dan y Ddeddf honno.
- (11) Mae paragraff (12) yn nodi'r wybodaeth—
- (a) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, a
 - (b) pan fo'r person cysylltiedig yn rhiant-ymgymeriad neu'n is-ymgymeriad i'r cyflenwr.
- (12) Yr wybodaeth yw—
- (a) enw'r person cysylltiedig,
 - (b) cyfeiriad cofrestredig y person cysylltiedig neu gyfeiriad ei brif swyddfa,
 - (c) cyfeiriad cyflwyno'r person cysylltiedig, a
 - (d) pan fo'r person cysylltiedig yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, y rhif cofrestru a roddwyd o dan y Ddeddf honno.
- (13) Mae paragraff (14) yn nodi'r wybodaeth—
- (a) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, a
 - (b) pan fo'r person cysylltiedig yn gwmni rhagflaenol i'r cyflenwr.
- (14) Yr wybodaeth yw—
- (a) enw'r person cysylltiedig,
 - (b) cyfeiriad cofrestredig olaf y person cysylltiedig neu gyfeiriad ei brif swyddfa olaf,

- (c) pan fo'r person cysylltiedig yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, y rhif cofrestru a roddwyd o dan y Ddeddf honno, a
- (d) y dyddiad pan aeth y person cysylltiedig yn ansolfent ac y peidiodd â masnachu.

(15) Mae paragraff (16) yn nodi'r wybodaeth—

- (a) pan na fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, a
- (b) pan ellir ystyried yn rhesymol fod y person cysylltiedig mewn sefyllfa gyfwerth, mewn perthynas â'r cyflenwr, â'r person cysylltiedig a ddisgrifir ym mharagraff (3), (5), (7), (9), (11) neu (13).

(16) Mae'r wybodaeth yn wybodaeth y gellir ystyried yn rhesymol ei bod yn gyfwerth â'r hyn y cyfeirir ato ym mharagraff (4), (6), (8), (10), (12) neu (14) (yn ôl y digwydd).

(17) Mae paragraff (18) yn nodi'r wybodaeth ar gyfer person cysylltiedig nad yw unrhyw un o baragraffau (3), (5), (7), (9), (11), (13) na (15) yn gymwys iddo—

- (a) sydd â'r hawl i arfer, neu sy'n arfer mewn gwirionedd, ddylanwad sylweddol neu reolaeth sylweddol dros y cyflenwr, neu
- (b) y mae gan y cyflenwr yr hawl i arfer, neu ei fod yn arfer mewn gwirionedd, ddylanwad sylweddol neu reolaeth sylweddol drosto.

(18) Yr wybodaeth yw—

- (a) enw'r person cysylltiedig,
- (b) cyfeiriad cofrestredig y person cysylltiedig neu gyfeiriad ei brif swyddfa,
- (c) cyfeiriad cyflwyno'r person cysylltiedig,
- (d) ffurf gyfreithiol y person cysylltiedig a'r gyfraith y'i llywodraethir odani,
- (e) pan fo'r person cysylltiedig yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, y rhif cofrestru a roddwyd o dan y Ddeddf honno,
- (f) pan fo'r person cysylltiedig yn gyfwerth tramor â chwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, y rhif cofrestru sy'n gyfwerth â'r rhai sydd wedi eu dyroddi o dan DC 2006,
- (g) pa un neu ragor o'r amodau penodedig yn Rhan 1 o Atodlen 1A i DC 2006 sy'n gymwys, ac
- (h) y dyddiad pan ddaeth y person cysylltiedig yn gofrestradwy fel person â rheolaeth sylweddol, os yw'n gymwys.

(19) Yn y rheoliad hwn—

mae i "cofrestradwy"—

- (a) mewn cysylltiad â pherson â rheolaeth sylweddol, yr ystyr a roddir i “registrable” gan adran 790C(4) o DC 2006;
- (b) mewn cysylltiad ag endid cyfreithiol perthnasol, yr ystyr a roddir i “registrable” gan adran 790C(8) o DC 2006;

mae i “cyfeiriad cyflwyno” yr ystyr a roddir i “service address” gan adran 1141 o DC 2006;

mae i “endid cyfreithiol perthnasol” yr ystyr a roddir i “relevant legal entity” gan adran 790C(6) o DC 2006; mae i’r termau “cyfarwyddwr”, “rhiant-ymgymeriad”, “is-ymgymeriad”, “cwmni rhagflaenol” a “cyfarwyddwr cysgodol” yr un ystyr ag a roddir i “director”, “parent undertaking”, “subsidiary undertaking”, “predecessor company” a “shadow director” yn y drefn honno gan baragraff 45 o Atodlen 6 i Ddeddf 2023.

Gwybodaeth y cyflenwr o ran seiliau dros wahardd

13.—(1) Mae paragraffau (2) i (13) yn nodi gwybodaeth y cyflenwr o ran seiliau dros wahardd.

(2) A yw’r cyflenwr neu berson cysylltiedig wedi ei euogfarnu o drosedd y cyfeirir ati yn y paragraffau a ganlyn o Atodlen 6 i Ddeddf 2023—

- (a) paragraff 2 (dynladdiad corfforaethol neu laddiad corfforaethol);
- (b) paragraff 3 (terfysgaeth);
- (c) paragraffau 4 i 18 (dwyn, twyll, llwgrwobrwyo etc.);
- (d) paragraffau 19 i 26 (troseddau marchnad lafur, caethwasiaeth a masnachu pobl);
- (e) paragraffau 27 ac 28 (troseddau cyfundrefnol);
- (f) paragraffau 29 i 31 (troseddau treth);
- (g) paragraff 32 (trosedd cartel);
- (h) paragraff 33 (troseddau ategol);
- (i) paragraff 34 (troseddau a gyflawnwyd y tu allan i’r Deyrnas Unedig).

(3) A yw’r cyflenwr neu berson cysylltiedig wedi bod yn destun digwyddiad y cyfeirir ato yn y paragraffau a ganlyn o Atodlen 6 i Ddeddf 2023—

- (a) paragraff 36 (cosbau am drafodiadau sy’n gysylltiedig â thwyll TAW ac efadu trethi neu dollau);
- (b) paragraff 37 (cosbau sy’n daladwy am wallau mewn dogfennaeth dreth a methiant i hysbysu a mathau penodol o ddrygioni o ran TAW a thollau cartref);
- (c) paragraff 38 (addasiadau ar gyfer trefniadau treth camddefnyddiol);

- (d) paragraff 39 (canfyddiad gan CThEF, wrth arfer ei bwerau mewn cysylltiad â TAW, o arfer camddefnyddiol);
- (e) paragraff 40 (trechu mewn cysylltiad â threfniadau treth hysbysadwy);
- (f) paragraff 41 (torri cyfraith cystadleuaeth);
- (g) paragraff 42 (materion cyfwerth y tu allan i'r Deyrnas Unedig).

(4) Mewn cysylltiad â pharagraff 43 o Atodlen 6 i Ddeddf 2023 (methiant i gydweithredu ag ymchwiliad)—

- (a) a yw awdurdod priodol wedi rhoi hysbysiad i'r cyflenwr neu berson cysylltiedig o dan adran 60(6) o Ddeddf 2023, a
- (b) a yw'r cyflenwr neu'r person cysylltiedig wedi methu â chydymffurfio â'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(5) A yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig wedi bod yn destun digwyddiad y cyfeirir ato yn y paragraffau canlynol o Atodlen 7 i Ddeddf 2023—

- (a) paragraff 1 (gorchmynion sy'n ymwneud â chamymddwyn yn y farchnad lafur);
- (b) paragraff 4 (tosedd sy'n ymwneud â chamymddwyn amgylcheddol);
- (c) paragraff 5 (ansolfedd, methdaliad, etc.);
- (d) paragraff 6 (atal neu roi'r gorau i gynnal y cyfan neu ran sylweddol o fusnes);
- (e) paragraff 9 (torri Deddf Cystadleuaeth 1998, gwaharddiad Pennod 2 neu gyfwerth y tu allan i'r Deyrnas Unedig);
- (f) paragraff 11(2) (dyfarniad llys etc. o gamymddwyn proffesiynol);
- (g) paragraff 12 (torri contract a pherfformiad gwael).

(6) Mewn cysylltiad â pharagraff 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 (camymddwyn o ran y farchnad lafur), a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig—

- (a) wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch ymddygiad y tu allan i'r Deyrnas Unedig a allai arwain at wneud gorchymyn a grybwyllir ym mharagraff 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 pe bai'r ymddygiad yn digwydd yn y Deyrnas Unedig, neu
- (b) wedi cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath.

(7) Mewn cysylltiad â pharagraff 3 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 (camymddwyn o ran y farchnad lafur), a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig—

- (a) wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch

ymddygiad (pa un ai yn y Deyrnas Unedig neu y tu allan iddi) sydd (neu a fyddai, pe bai'n digwydd yn y Deyrnas Unedig) yn drosedd y cyfeirir ati—

- (i) yn adran 1, 2, 4 neu 30 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015(1),
- (ii) yn adran 1, 4 neu 32 o Ddeddf Masnachu Pobl a Chamfanteisio ar Bobl (Yr Alban) 2015(2), neu
- (iii) yn adran 1, 2 neu 4 o Ddeddf Masnachu Pobl a Chamfanteisio ar Bobl (Cyfiawnder Troseddol a Chymorth i Ddiodefswyr) (Gogledd Iwerddon) 2015(3), neu baragraff 16 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, neu

(b) wedi cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath.

(8) Mewn cysylltiad â pharagraff 7 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 (achosion posibl o dorri cyfraith cystadleuaeth)—

- (a) a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch a yw cytundeb neu arfer ar y cyd y mae'r cyflenwr neu berson cysylltiedig yn barti iddo wedi torri—
 - (i) y gwaharddiad Pennod 1 (o fewn yr ystyr a roddir i “the Chapter 1 prohibition” gan adran 2 o Ddeddf Cystadleuaeth 1998(4)),
 - (ii) unrhyw waharddiad sylweddol debyg sy'n gymwys mewn awdurdodaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu

(b) a yw cytundeb neu arfer ar y cyd y mae'r cyflenwr neu berson cysylltiedig yn barti iddo wedi torri gwaharddiadau o'r fath,

ac eithrio o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-baragraff (2) o baragraff 7.

(9) Mewn cysylltiad â pharagraff 8 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 (achosion posibl o dorri cyfraith cystadleuaeth), a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig—

- (a) wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig wedi torri—
 - (i) y gwaharddiad Pennod 2 (o fewn yr ystyr a roddir i “the Chapter 2 prohibition” gan

(1) 2015 p. 30.
(2) 2015 dsa 12.
(3) 2015 p. 2 (G.I.).
(4) 1998 p. 41.

adran 18 o Ddeddf Cystadleuaeth 1998),
neu

(ii) unrhyw waharddiad sylweddol debyg
sy'n gymwys mewn awdurdodaeth y tu
allan i'r Deyrnas Unedig, neu

(b) wedi torri gwaharddiadau o'r fath.

(10) Mewn cysylltiad â pharagraff 10 o Atodlen 7 i
Ddeddf 2023 (achosion posibl o dorri cyfraith
cystadleuaeth), a yw'r cyflenwr neu berson
cysylltiedig—

(a) wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn
destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch
ymddygiad sydd—

(i) yn drosedd o dan adran 188 o Ddeddf
Menter 2002(1) (trosedd cartel), neu

(ii) yn drosedd sylweddol debyg o dan
gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan
i'r Deyrnas Unedig, neu

(b) wedi cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath,
ac eithrio o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-
baragraff (2) o baragraff 10 o Atodlen 7 i Ddeddf
2023.

(11) Mewn cysylltiad â pharagraff 11 o Atodlen 7 i
Ddeddf 2023 (camymddwyn proffesiynol), a yw'r
cyflenwr neu berson cysylltiedig—

(a) wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn
destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch
camymddwyn proffesiynol sy'n codi
amheuon ynghylch uniondeb y cyflenwr, neu

(b) wedi cymryd rhan mewn camymddwyn o'r
fath.

(12) Mewn cysylltiad â pharagraff 13 o Atodlen 7 i
Ddeddf 2023 (gweithredu mewn ffordd amhriodol
wrth gaffael), a yw'r cyflenwr neu berson
cysylltiedig—

(a) wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn
destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch a
weithredodd y cyflenwr yn amhriodol mewn
perthynas ag unrhyw gaffaeliad ac, wrth
wneud hynny, ei fod wedi rhoi mantais
annheg iddo ei hun mewn perthynas â dyfarnu
contract cyhoeddus, neu

(b) wedi ymddwyn yn amhriodol yn y ffordd
honno.

(13) Os yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig wedi
bod yn destun digwyddiad a grybwyllir ym
mharagraffau (2) i (12), yr wybodaeth a ganlyn mewn
cysylltiad â phob person sydd wedi bod yn destun
digwyddiad—

(1) 2002 p. 40.

- (a) disgrifiad byr o'r digwyddiad,
- (b) enw'r person sy'n destun y digwyddiad,
- (c) enw, cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y person,
- (d) yn achos euogfarn neu ddigwyddiad arall pan fo cofnod wedi ei wneud o benderfyniad awdurdod cyhoeddus, sef y sail awdurdodol ar gyfer yr euogfarn neu'r digwyddiad arall—
 - (i) dolen i'r dudalen we lle y gellir cyrchu'r penderfyniad, neu
 - (ii) copi o'r penderfyniad,
- (e) unrhyw dystiolaeth bod y person sy'n destun y digwyddiad—
 - (i) wedi cymryd y digwyddiad o ddifrif, er enghraifft drwy dalu unrhyw ddirwy neu iawndal,
 - (ii) wedi cymryd camau i atal y digwyddiad rhag digwydd eto, er enghraifft drwy newid staff neu reolwyr, neu roi gweithdrefnau neu hyfforddiant ar waith, a
 - (iii) wedi ymrwymo i gymryd camau ataliol pellach, pan fo hynny'n briodol, ac
- (f) os yw'r amgylchiadau a arweiniodd at y digwyddiad wedi dod i ben, y dyddiad y daethant i ben.

(14) Yn y rheoliad hwn, ystyr “digwyddiad”—

- (a) mewn perthynas â darpariaeth yn Atodlen 6 i Ddeddf 2023, yw'r ystyr a roddir i “event” ym mharagraff 45 o'r Atodlen honno;
- (b) mewn perthynas â darpariaeth yn Atodlen 7 i Ddeddf 2023, yw'r ystyr a roddir i “event” ym mharagraff 16 o'r Atodlen honno.

(15) Yn y rheoliad hwn, mae i “camymddwyn proffesiynol” yr ystyr a roddir i “professional misconduct” gan baragraff 11(3) o Atodlen 7 i Ddeddf 2023.

Gwybodaeth yr awdurdod contractio

14. Yn y Rhan hon, ystyr “gwybodaeth yr awdurdod contractio” yw—

- (a) pan fo un awdurdod contractio ar gyfer caffaeliad, enw'r awdurdod contractio,
- (b) pan fo dau neu ragor o awdurdodau contractio yn gweithredu ar y cyd ar gyfer caffaeliad—
 - (i) enw'r awdurdod contractio y mae'r awdurdodau contractio sy'n gweithredu ar y cyd yn ei bennu'n awdurdod arweiniol ar gyfer y caffaeliad, a

- (ii) enw pob un o'r awdurdodau contractio eraill,
- (c) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost ar gyfer pob awdurdod contractio,
- (d) y cod adnabod unigryw ar gyfer pob awdurdod contractio, neu ar gyfer pob awdurdod contractio sy'n gweithredu ar y cyd,
- (e) ar gyfer unrhyw berson sy'n cyflawni'r caffaeliad, neu ran o'r caffaeliad, ar ran awdurdod contractio, neu ar ran un neu ragor o'r awdurdodau contractio sy'n gweithredu ar y cyd—
 - (i) enw'r person,
 - (ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y person,
 - (iii) cod adnabod unigryw y person, a
 - (iv) crynodeb o rôl y person, ac
- (f) mewn cysylltiad â hysbysiad a gyhoeddir gan yr awdurdod contractio, enw, cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y person y dylid cysylltu ag ef os bydd ymholiad ynghylch yr hysbysiad.

Pwnc y contract

15.—(1) Yn y Rhan hon, ystyr “pwnc y contract” yw'r wybodaeth a ganlyn, i'r graddau y mae'n hysbys i'r awdurdod contractio pan gyhoeddir yr wybodaeth—

- (a) a yw'r contract yn bennaf ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwasanaeth neu weithiau,
- (b) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,
- (c) crynodeb o'r modd y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau hynny yn cael eu cyflenwi,
- (d) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau yn cael eu cyflenwi neu amcangyfrif o'r cyfnod y byddant yn cael eu cyflenwi drosto,
- (e) amcangyfrif o swm nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,
- (f) y codau GGG perthnasol, ac
- (g) y dosbarthiad daearyddol, pan fo'n bosibl disgrifio hyn.

(2) Yn y Rhan hon, ystyr “dosbarthiad daearyddol” yw—

- (a) yr ardal y mae'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau i gael eu cyflenwi ynddi yn y Deyrnas Unedig, drwy gyfeirio at yr

ardaloedd ITL 1, ITL 2 ac ITL 3 perthnasol a restrir ar y wefan â'r pennawd "International Geographies" ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol(1) fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, neu

- (b) pan fo'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau i gael eu cyflenwi y tu allan i'r Deyrnas Unedig, enw'r wlad a, pan fo'n briodol, y rhanbarth y maent i gael eu cyflenwi ynddo.

Hysbysiadau piblinell

16.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi pa wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad piblinell a gyhoeddir o dan adran 93(2) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) enw'r caffaeliad,
- (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,
- (d) pwnc y contract, ac
- (e) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y canlynol yn cael eu cyhoeddi—
 - (i) yr hysbysiad tendro ar gyfer y contract cyhoeddus, neu
 - (ii) yr hysbysiad tryloywder ar gyfer y contract cyhoeddus.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth berthnasol arall yn yr hysbysiad.

Hysbysiadau caffael arfaethedig

17.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad caffael arfaethedig a gyhoeddir o dan adran 15(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) enw'r caffaeliad,
- (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,
- (d) pwnc y contract,
- (e) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd yr hysbysiad tendro ar gyfer y contract cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi,

(1) Gellir dod o hyd i'r wefan yn: https://cy.ons.gov.uk/methodology/geography/ukgeographies/eurostat?_gl=1*wm87j9*_ga*OTIzMTMzNzIzLjE2NTUzNjkyMjM.*_ga_W804VY6YKS*MTcxNjk5MjE5NC4xNi4wLjE3MTY5OTIxMjQuNjAuMC4w

- (f) amcangyfrif o'r dyddiad erbyn pryd y gofynnir i gyflenwyr gyflwyno ceisiadau i gymryd rhan mewn unrhyw broses dendro neu dendrau,
- (g) pa un o'r gweithdrefnau canlynol y disgwylir ei defnyddio—
 - (i) gweithdrefn agored, neu
 - (ii) gweithdrefn hyblyg gystadleuol,
- (h) a fydd y contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig,
- (i) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu,
- (j) sut y gellir cael gafael ar ddogfennau sy'n ymwneud â'r caffaeliad,
- (k) datganiad sy'n esbonio sut a phryd y caniateir mynegi diddordeb yn y contract, ac
- (l) cymaint o'r wybodaeth yn ymwneud â hysbysiadau tendro, y cyfeirir ati yn rheoliad 19(2), 20(2), 21(2), 22(2) neu 23(2), ag sydd ar gael i'r awdurdod contractio ar adeg cyhoeddi'r hysbysiad caffael arfaethedig.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad mewn hysbysiad caffael arfaethedig.

Hysbysiadau ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad

18.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad a gyhoeddir o dan adran 17(1)(a) o Ddeddf 2023.

- (2) Yr wybodaeth yw—
 - (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
 - (b) enw'r caffaeliad,
 - (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,
 - (d) pwnc y contract,
 - (e) naill ai—
 - (i) y dyddiad y mae'r awdurdod contractio yn bwriadu dod â'r ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad i ben, neu
 - (ii) y dyddiad y daeth yr ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad i ben, ac
- (f) disgrifiad o'r broses y mae'r awdurdod contractio yn bwriadu ymgysylltu, neu wedi ymgysylltu, â chyflenwyr drwyddi yn ystod yr ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad, er enghraifft—

- (i) lleoliad, dyddiad ac amser digwyddiadau,
a
- (ii) unrhyw gyfnodau ar gyfer cyflwyno datganiadau o ddiddordeb a gwybodaeth gan gyflenwyr.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

Hysbysiadau tendro: gweithdrefn agored

19.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus drwy weithdrefn agored, a gyhoeddir o dan adran 21(1)(a) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) enw'r caffaeliad,
- (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,
- (d) datganiad bod yr hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus drwy weithdrefn agored yn unol ag adran 20(1) a (2)(a) o Ddeddf 2023,
- (e) a yw'r hysbysiad tendro yn ymwneud â chontract cyfundrefn arbennig ac, os felly, a yw'r contract hwnnw—
 - (i) yn gontract consesiwn,
 - (ii) yn gontract cyffyrddiad ysgafn, neu
 - (iii) yn gontract cyfleustodau,
- (f) pwnc y contract,
- (g) amcangyfrif o werth y contract cyhoeddus,
- (h) pan fo'r contract cyhoeddus ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu weithiau y mae'r awdurdod contractio yn disgwyl y bydd eu hangen ar ôl i'r contract ddod i ben—
 - (i) a yw'r awdurdod contractio yn bwriadu caffael nwyddau, gwasanaethau neu weithiau tebyg wedi hynny drwy ddibynnu ar y cyfiawnhad dros ddyfarnu'n uniongyrchol ym mharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023, neu
 - (ii) amcangyfrif, os yw'n bosibl, o'r dyddiad y bydd unrhyw hysbysiad tendro dilynol yn cael ei gyhoeddi,
- (i) a fydd arwerthiant electronig yn cael ei ddefnyddio ac, os felly, fanylion technegol ynghylch y modd y gall cyflenwyr gymryd rhan yn yr arwerthiant electronig,
- (j) sut y caniateir cyflwyno tendrau a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno,

- (k) y meini prawf dyfarnu, neu grynodedb o'r meini prawf dyfarnu, ar gyfer y contract cyhoeddus,
- (l) yr ieithoedd y caniateir cyflwyno tendrau neu ymholiadau mewn cysylltiad â'r weithdrefn dendro ynddynt,
- (m) a yw'r contract cyhoeddus yn gcontract y mae gan y Deyrnas Unedig rwymedigaethau ar ei gyfer o dan y Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau,
- (n) o'r dyddiad y daw'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel i rym ar gyfer y Deyrnas Unedig, a yw'r contract cyhoeddus yn gcontract y mae gan y Deyrnas Unedig rwymedigaethau ar ei gyfer o dan y Cytundeb hwnnw,
- (o) a yw'r contract cyhoeddus wedi ei ddyfarnu drwy gyfeirio at lotiau ac, os felly, ar gyfer pob lot—
 - (i) enw'r lot,
 - (ii) y rhif neilltuol a roddwyd i'r lot gan yr awdurdod contractio,
 - (iii) yr wybodaeth a ganlyn, i'r graddau y mae'n hysbys i'r awdurdod contractio pan gyhoeddir yr hysbysiad tendro—
 - (aa) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,
 - (bb) crynodeb o'r modd y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau hynny yn cael eu cyflenwi,
 - (cc) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau yn cael eu cyflenwi neu amcangyfrif o'r cyfnod y byddant yn cael eu cyflenwi drosto,
 - (dd) amcangyfrif o swm nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,
 - (ee) amcangyfrif o werth y lot,
 - (ff) y codau GGG perthnasol,
 - (gg) y meini prawf dyfarnu perthnasol mewn perthynas â'r lot,
 - (hh) unrhyw opsiwn mewn perthynas â'r lot, ac
 - (ii) y dosbarthiad daearyddol, pan fo'n bosibl ei ddisgrifio,
- (p) pan fo'r contract cyhoeddus wedi ei ddyfarnu drwy gyfeirio at lotiau—

- (i) a ganiateir i gyflenwr gyflwyno tendr ar gyfer uchafswm o lotiau yn unig ac, os felly, yr uchafswm,
 - (ii) a ganiateir dyfarnu uchafswm o lotiau yn unig i gyflenwr ac, os felly, yr uchafswm, a
 - (iii) a fydd yr awdurdod contractio yn dyfarnu lotiau lluosog i'r un cyflenwr yn unol â meini prawf ac, os felly, grynodedb o'r meini prawf,
- (q) pan fo'r awdurdod contractio yn ystyried o dan adran 18(2) o Ddeddf 2023 y gellid dyfarnu'r contract cyhoeddus drwy gyfeirio at lotiau ond nad yw hynny'n digwydd, y rhesymau dros hyn, ac eithrio yn achos contract cyfleustodau neu gontract cyffyrddiad ysgafn,
- (r) disgrifiad o unrhyw opsiwn a fydd yn cael ei gynnwys yn y contract cyhoeddus—
- (i) i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol, neu
 - (ii) i ymestyn neu adnewyddu cyfnod y contract,
- (s) a yw'r awdurdod contractio yn bwriadu gosod y cyfnod tendro lleiaf byrraf drwy gyfeirio at un o'r cofnodion a ganlyn yn y tabl yn adran 54(4) o Ddeddf 2023 ac, os felly, pa gofnod—
- (i) yr ail gofnod (contractau cyfleustodau neu gontractau a ddyfernir gan awdurdod contractio nad yw'n awdurdod llywodraeth ganolog, sy'n ddarostyngedig i gyfnod tendro a negodwyd; dim cyfnod lleiaf),
 - (ii) y trydydd cofnod (contractau cyfleustodau neu gontractau penodol a ddyfernir gan awdurdod contractio nad yw'n awdurdod llywodraeth ganolog, pan ganiateir cyflwyno tendrau gan gyflenwyr a ddedholwyd ymlaen llaw yn unig; 10 niwrnod),
 - (iii) y pedwerydd cofnod (mae hysbysiad caffael arfaethedig cymhwysol wedi ei gyhoeddi; 10 niwrnod), neu
 - (iv) y pumed cofnod (sefyllfa frys; 10 niwrnod),
- (t) a yw'r awdurdod contractio yn ystyried y gall y contract cyhoeddus neu unrhyw lot sy'n ffurfio rhan o'r contract fod yn arbennig o addas i'w ddyfarnu—
- (i) i fenter fach a chanolig ei maint, neu
 - (ii) i gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion

cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,

- (u) a yw dogfennau tendro gysylltiedig yn cael eu darparu yn unol â'r hysbysiad tendro ar yr un pryd ag y mae'r hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ac, os felly—
 - (i) enw pob dogfen dendro gysylltiedig,
 - (ii) a yw pob dogfen dendro gysylltiedig ynghlwm wrth yr hysbysiad tendro, a
 - (iii) os nad yw dogfen dendro gysylltiedig ynghlwm wrth yr hysbysiad tendro, dolen i'r dudalen we lle y mae wedi ei darparu,
- (v) a yw dogfen dendro gysylltiedig yn cael ei darparu, neu y gall gael ei darparu, yn unol â'r hysbysiad tendro ar ôl y dyddiad y bydd yr hysbysiad hwnnw yn cael ei gyhoeddi ac, os felly, dolen i'r dudalen we lle y bydd yn cael ei darparu, neu esboniad ynghylch sut y bydd y ddogfen yn cael ei darparu,
- (w) disgrifiad o unrhyw fanylebau technegol y disgwylir eu bodloni neu groesgyfeiriad i'r lle y gellir eu cyrchu,
- (x) disgrifiad o unrhyw amodau cymryd rhan o dan adran 22 o Ddeddf 2023,
- (y) unrhyw delerau talu (yn ogystal â'r rhai a nodir yn adran 68 o Ddeddf 2023),
- (z) disgrifiad yn nodi unrhyw risg—
 - (i) y mae'r awdurdod contractio yn ystyried y gallai beri i'r contract cyhoeddus beidio â chael ei gyflawni'n foddhaol ond, oherwydd ei natur, y mae'n bosibl na fydd yn cael sylw yn y contract cyhoeddus fel y'i dyfernir, a
 - (ii) a all ei gwneud yn ofynnol addasu'r contract cyhoeddus yn ddiweddarach o dan baragraff 5 o Atodlen 8 i Ddeddf 2023 (addasu contract yn dilyn gwireddiad risg hysbys), ac
- (z1) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "arwerthiant electronig" yw proses ailadroddol sy'n cynnwys defnyddio dulliau electronig er mwyn i gyflenwyr gyflwyno naill ai brisiau newydd, neu werthoedd newydd ar gyfer elfennau o'r tendr y mae modd eu meintioli nad ydynt yn ymwneud â phrisiau ac sy'n gysylltiedig â'r meini prawf gwerthuso, neu'r ddau, gan arwain at bennu safleoedd tendrau neu aildrefnu safleoedd tendrau mewn rhestr drefnol.

(4) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(5) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu fframwaith drwy weithdrefn agored (gweler yn hytrach reoliad 21).

Hysbysiadau tendro: gweithdrefn hyblyg gystadleuol

20.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus drwy weithdrefn hyblyg gystadleuol a gyhoeddir yn unol ag adran 21(1)(b) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 19(2) ac eithrio is-baragraffau (d) a (j),
- (b) datganiad bod yr hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus drwy weithdrefn hyblyg gystadleuol yn unol ag adran 20(1) a (2)(b) o Ddeddf 2023,
- (c) disgrifiad o'r broses sydd i'w dilyn yn ystod y weithdrefn, gan gynnwys—
 - (i) a all y weithdrefn gynnwys negodi ar unrhyw adeg, a
 - (ii) os yw'r awdurdod contractio yn bwriadu dibynnu ar adran 24 o Ddeddf 2023 (mireinio meini prawf), crynodeb o'r modd y bydd yn dibynnu ar yr adran honno,
- (d) pan fo nifer y cyflenwyr, neu y gall y bo nifer y cyflenwyr, yn ddim mwy nag uchafswm o gyflenwyr, yn gyffredinol neu mewn cysylltiad â rowndiau tendro penodol neu brosesau dethol eraill, yr uchafswm o gyflenwyr a'r meini prawf a ddefnyddir i dethol y nifer cyfyngedig o gyflenwyr,
- (e) pan fo nifer y cyflenwyr, neu y gall y bo nifer y cyflenwyr, yn ddim llai nag isafswm bwriadedig o gyflenwyr, yn gyffredinol neu mewn cysylltiad â rowndiau tendro penodol neu brosesau dethol eraill, yr isafswm bwriadedig o gyflenwyr,
- (f) pan fo'r hysbysiad tendro yn cael ei ddefnyddio at ddiben gwahodd cyflenwyr i gyflwyno cais i gymryd rhan, sut y caniateir cyflwyno ceisiadau i gymryd rhan a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno,
- (g) pan fo'r hysbysiad tendro yn cael ei ddefnyddio at ddiben gwahodd cyflenwyr i gyflwyno eu tendr cyntaf neu eu hunig dendr, sut y caniateir cyflwyno tendrau a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno, ac
- (h) a yw'r hysbysiad tendro yn cael ei ddefnyddio—

- (i) i neilltuo contract i ddarparwyr cyflogaeth â chymorth yn unol ag adran 32 o Ddeddf 2023, neu
- (ii) i neilltuo contract i gwmnïau cyfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus yn unol ag adran 33 o Ddeddf 2023.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(4) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys—

- (a) i hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu fframwaith drwy weithdrefn hyblyg gystadleuol (gweler yn hytrach reoliad 21), na
- (b) i hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig (gweler yn hytrach reoliad 22).

Hysbysiadau tendro: fframweithiau

21.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu fframwaith, a gyhoeddir yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) pan fo'r weithdrefn agored yn cael ei defnyddio, yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 19(2),
- (b) pan fo'r weithdrefn hyblyg gystadleuol yn cael ei defnyddio, yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 20(2),
- (c) manylion y broses ddethol sydd i'w chymhwyso wrth ddyfarnu contractau,
- (d) cyfnod y fframwaith,
- (e) yr awdurdodau contractio a chanddynt hawlogaeth i ddyfarnu contractau yn unol â'r fframwaith (pa un ai drwy restru enwau'r awdurdodau hynny neu drwy ddisgrifio categorïau o awdurdodau),
- (f) a yw'r fframwaith wedi ei ddyfarnu o dan fframwaith agored,
- (g) pan fo'r fframwaith yn cael ei ddyfarnu o dan fframwaith agored, y cod adnabod unigryw ar gyfer caffaeliad y fframwaith olaf a ddyfarnwyd o dan y fframwaith agored (oni bai nad oes fframwaith wedi ei ddyfarnu o dan y fframwaith agored yn flaenorol),
- (h) pan fo'r fframwaith yn cael ei ddyfarnu o dan fframwaith agored, amcangyfrif o ddyddiad dod i ben y fframwaith agored,
- (i) pa un ai'r bwriad yw dyfarnu'r fframwaith—
 - (i) i gyflenwr unigol,

- (ii) i uchafswm o gyflenwyr, neu
- (iii) i nifer diderfyn o gyflenwyr,
- (j) pan mai'r bwriad yw dyfarnu'r fframwaith i uchafswm o gyflenwyr, yr uchafswm o gyflenwyr,
- (k) a yw'r fframwaith yn darparu ar gyfer codi ffioedd yn unol ag adran 45(7) o Ddeddf 2023 ac, os felly, y ganran sefydlog o werth amcangyfrifedig unrhyw gontract a ddyfernir i'r cyflenwr yn unol â'r fframwaith ac unrhyw wybodaeth angenrheidiol arall er mwyn deall sut y caiff ffioedd eu codi, ac
- (l) pan fo'r fframwaith yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig—
 - (i) y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig y mae'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn ei herbyn,
 - (ii) datganiad bod yr hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus sydd i'w ddyfarnu drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig, a
 - (iii) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu o dan ran briodol o farchnad ddynamig—
 - (aa) enw'r rhan, a
 - (bb) y rhif neilltuol a roddwyd i'r rhan gan y person a sefydlodd y farchnad ddynamig.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

Hysbysidiadau tendro: marchnadoedd dynamig ac eithrio marchnadoedd dynamig cyfleustodau cymhwysol

22.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig, a gyhoeddir o dan adrannau 21(1)(b) a 34(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 20(2),
- (b) y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig y mae'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn ei herbyn,
- (c) datganiad bod yr hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus sydd i'w ddyfarnu drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig, a

- (d) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu o dan ran briodol o farchnad ddynamig—
 - (i) enw'r rhan, a
 - (ii) y rhif neilltuol a roddwyd i'r rhan gan yr awdurdod priodol.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(4) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i hysbysiad tendro o'r math a grybwyllir yn rheoliad 23(1).

Hysbysiadau tendro: hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol

23.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus, drwy gyfeirio at farchnad ddynamig cyfleustodau a sefydlir o dan hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol, a ddarperir o dan adran 40(2) neu (3) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig y mae'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn ei herbyn,
- (c) pwnc y contract,
- (d) pan fo'r contract cyhoeddus ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu weithiau y mae'r awdurdod contractio yn disgwyl y bydd eu hangen ar ôl i'r contract ddod i ben, amcangyfrif o'r dyddiad, os yw'n bosibl, y bydd unrhyw hysbysiad tendro dilynol yn cael ei ddarparu,
- (e) disgrifiad o unrhyw opsiwn a fydd yn cael ei gynnwys yn y contract cyhoeddus—
 - (i) i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol, neu
 - (ii) i estyn neu adnewyddu cyfnod y contract,
- (f) a fydd arwerthiant electronig yn cael ei ddefnyddio,
- (g) sut y caniateir cyflwyno ceisiadau i gymryd rhan a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno,
- (h) sut y caniateir cyflwyno tendrau a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno,
- (i) a yw'r awdurdod contractio yn bwriadu dibynnu ar un o'r cyfnodau tendro lleiaf canlynol a grybwyllir yn y tabl yn adran 54(4) o Ddeddf 2023 ac, os felly, pa gofnod—

- (i) y cofnod cyntaf (mae'r contract sy'n cael ei ddyfarnu yn gontract cyffyrddiad ysgafn; dim cyfnod lleiaf),
- (ii) yr ail gofnod (contractau cyfleustodau neu gontractau a ddyfernir gan awdurdod contractio nad yw'n awdurdod llywodraeth ganolog, sy'n ddarostyngedig i gyfnod tendro a negodwyd; dim cyfnod lleiaf);
- (iii) y trydydd cofnod (contractau cyfleustodau neu gontractau a ddyfernir gan awdurdod contractio nad yw'n awdurdod llywodraeth ganolog, pan ganiateir cyflwyno tendrau gan gyflenwyr a ddeddfolwyd ymlaen llaw yn unig; 10 niwrnod), neu
- (iv) y pumed cofnod (sefyllfa frys; 10 niwrnod),
- (j) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi, a
- (k) amcangyfrif o swm nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi.

(3) Pan fo awdurdod contractio eisoes wedi cyhoeddi gwybodaeth a grybwyllir ym mharagraff (2) yn yr hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn unol â rheoliad 26(2)(i)(ii), nid yw'n ofynnol i'r awdurdod contractio ddarparu'r wybodaeth honno yn yr hysbysiad.

(4) Ym mharagraff (2), mae i "arwerthiant electronig" yr ystyr a roddir gan reoliad 19(3).

(5) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag darparu gwybodaeth arall yn yr hysbysiad.

Dogfennau tendro cysylltiedig

24.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi pa wybodaeth y caniateir ei chynnwys mewn dogfen dendro gysylltiedig a ddarperir o dan adran 21(3) o Ddeddf 2023 yn unol â hysbysiad tendro.

(2) Caiff y ddogfen gynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ategu'r hysbysiad tendro gan gynnwys, pan fo'n briodol, wybodaeth sy'n dyblygu'r wybodaeth a grybwyllir—

- (a) yn rheoliad 19(2),
- (b) yn rheoliad 20(2),
- (c) yn rheoliad 21(2),
- (d) yn rheoliad 22(2), neu
- (e) yn rheoliad 23(2).

Hysbysiadau tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy

25.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy, a gyhoeddir o dan adran 87(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) enw'r caffaeliad,
- (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,
- (d) pan fo'r contract yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at farchnad ddynamig, y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig honno,
- (e) pan fo'r contract i gael ei ddyfarnu o dan ran briodol o farchnad ddynamig, y rhif neilltuol a roddwyd i'r rhan honno gan yr awdurdod contractio,
- (f) pwnc y contract,
- (g) amcangyfrif o werth y contract,
- (h) sut y caniateir cyflwyno tendrau a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno,
- (i) a yw'r hysbysiad yn cael ei ddefnyddio i wahodd tendrau ar gyfer contract cyfundrefn arbennig ac, os felly, a yw'r contract hwnnw yn gocontract cyffyrddiad ysgafn,
- (j) a yw'r awdurdod contractio yn ystyried y gall y contract neu unrhyw lot sy'n ffurfio rhan o'r contract fod yn arbennig o addas i'w ddyfarnu—
 - (i) i fenter fach a chanolig ei maint, neu
 - (ii) i gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,
- (k) esboniad o'r meini prawf y bydd dyfarnu'r contract yn cael ei asesu yn eu herbyn, ac
- (l) disgrifiad o unrhyw amodau cymryd rhan mewn perthynas â dyfarnu'r contract.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae i "hysbysiad tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy" yr ystyr a roddir i "below-threshold tender notice" gan adran 87(5) o Ddeddf 2023.

Hysbysiadau marchnad ddynamig (gan gynnwys hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol)

26.—(1) Mae paragraff (2) yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad marchnad ddynamig a gyhoeddir o dan adran 39(2) o Ddeddf 2023 (hysbysiadau marchnad ddynamig: bwriad i sefydlu marchnad ddynamig).

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) enw'r person sy'n sefydlu'r farchnad ddynamig,
- (b) pan fo dau berson neu ragor yn sefydlu'r farchnad ddynamig ar y cyd—
 - (i) enw'r person arweiniol, a
 - (ii) enw pob un o'r personau eraill,
- (c) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost ar gyfer pob person a grybwyllir yn is-baragraff (a) neu (b),
- (d) y cod adnabod unigryw ar gyfer pob person a grybwyllir yn is-baragraff (a) neu (b),
- (e) enw unrhyw berson (“A”) sy'n sefydlu'r farchnad ddynamig ar ran person arall ac—
 - (i) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost A,
 - (ii) cod adnabod unigryw A, a
 - (iii) crynodeb o rôl A mewn perthynas â'r farchnad ddynamig,
- (f) enw, cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost unrhyw berson y gellir cysylltu ag ef os bydd ymholiad ynghylch y farchnad ddynamig,
- (g) enw'r farchnad ddynamig,
- (h) y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig,
- (i) yn achos hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol—
 - (i) datganiad mai dim ond aelodau o'r farchnad, neu o ran o'r farchnad, fydd yn cael eu hysbysu am fwriad yn y dyfodol i ddyfarnu contract drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o'r farchnad, neu o ran o'r farchnad, ac yn cael hysbysiad tendro yn unol ag adran 40(1) a (2) o Ddeddf 2023, a
 - (ii) cymaint o'r wybodaeth a fyddai'n cael ei chyhoeddi mewn unrhyw hysbysiad tendro a gyhoeddir yn unol â rheoliad 23(2) ag sydd ar gael pan gyhoeddir yr hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol,
- (j) sut y gellir cael gafael ar ddogfennau sy'n ymwneud â'r farchnad ddynamig,

- (k) sut y caniateir gwneud cais i ymuno â'r farchnad ddynamig,
- (l) a yw'r farchnad ddynamig yn bennaf ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau,
- (m) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau y mae'r farchnad ddynamig yn ymwneud â hwy, wedi ei roi yn y fath fanylder fel y gall darllynydd yr hysbysiad marchnad ddynamig benderfynu a yw'n dymuno gwneud cais i ymuno â'r farchnad ddynamig, neu ran briodol o'r farchnad,
- (n) y codau GGG perthnasol,
- (o) yr amodau ar gyfer aelodaeth o'r farchnad ddynamig, neu ran o'r farchnad, wedi eu gosod yn unol ag adran 36 o Ddeddf 2023,
- (p) disgrifiad o'r dulliau a fydd yn cael eu defnyddio i ddilysu a yw cyflenwr yn bodloni'r amodau hynny, gan gynnwys unrhyw amodau gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau,
- (q) a ganiateir i'r farchnad ddynamig gael ei defnyddio i ddyfarnu contract cyhoeddus y mae gan y Deyrnas Unedig rwymedigaethau ar ei gyfer o dan y Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau,
- (r) o'r dyddiad y daw'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel i rym ar gyfer y Deyrnas Unedig, a yw'r farchnad ddynamig yn farchnad y mae gan y Deyrnas Unedig rwymedigaethau ar ei chyfer o dan y Cytundeb hwnnw,
- (s) a ganiateir i'r farchnad ddynamig gael ei defnyddio i ddyfarnu contract cyfundrefn arbennig ac, os felly, a yw'r contract hwnnw—
 - (i) yn gontract consesiwn,
 - (ii) yn gontract cyffyrddiad ysgafn, neu
 - (iii) yn gontract cyfleustodau,
- (t) pan fo'r farchnad ddynamig wedi ei rhannu'n rhannau priodol at ddiben gwahardd cyflenwyr nad ydynt yn aelodau o ran briodol—
 - (i) enw pob rhan,
 - (ii) disgrifiad o bob rhan gan gynnwys unrhyw godau GGG perthnasol, a
 - (iii) y rhif neilltuol a roddir i bob rhan gan y person sy'n sefydlu'r farchnad ddynamig,

- (u) gwybodaeth sy'n galluogi darllynydd i nodi pa awdurdodau contractio fydd yn gwneud cais, neu y caniateir iddynt wneud cais, i ddefnyddio'r farchnad ddynamig (naill ai drwy gyfeirio at restr o awdurdodau neu restr sy'n disgrifio categorïau o awdurdodau),
- (v) y dosbarthiad daearyddol, pan fo'n bosibl ei ddisgrifio,
- (w) yn achos marchnad ddynamig, y mae amcangyfrif o'r dyddiad y bydd yn peidio â gweithredu yn hysbys ar ei chyfer—
 - (i) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y farchnad ddynamig yn cael ei sefydlu, a
 - (ii) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y farchnad ddynamig yn peidio â gweithredu,
- (x) yn achos marchnad ddynamig nad oes amcangyfrif o'r dyddiad y bydd yn peidio â gweithredu yn hysbys ar ei chyfer—
 - (i) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y farchnad ddynamig yn cael ei sefydlu, a
 - (ii) datganiad bod y farchnad ddynamig yn farchnad benagored,
- (y) yn achos marchnad ddynamig nad yw'n farchnad ddynamig cyfleustodau, a yw'r farchnad ddynamig yn darparu ar gyfer codi ffioedd yn unol ag adran 38(1) o Ddeddf 2023 ac, os felly—
 - (i) y ganran sefydlog i'w chymhwyso i werth amcangyfrifedig unrhyw gontract cyhoeddus a ddyfernir i gyflenwr drwy gyfeirio at y farchnad ddynamig, a
 - (ii) unrhyw wybodaeth angenrheidiol arall er mwyn galluogi cyflenwyr i ddeall sut y bydd ffioedd yn cael eu codi, a
- (z) yn achos marchnad ddynamig cyfleustodau—
 - (i) a yw'r farchnad ddynamig cyfleustodau yn darparu ar gyfer codi ffioedd yn unol ag adran 38(3) o Ddeddf 2023, a
 - (ii) os felly, unrhyw wybodaeth angenrheidiol arall er mwyn galluogi cyflenwyr i ddeall sut y bydd ffioedd yn cael eu codi.

(3) Mae paragraff (4) yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad marchnad ddynamig a gyhoeddir o dan adran 39(3) o Ddeddf 2023 (sefydlu marchnad ddynamig).

(4) Yr wybodaeth yw—

- (a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(a) i (h),
- (b) y dyddiad y cafodd y farchnad ddynamig ei sefydlu,

- (c) ar gyfer pob cyflenwr sy'n aelod o'r farchnad ddynamig—
 - (i) enw'r cyflenwr,
 - (ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr,
 - (iii) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr, a
 - (iv) a yw'r cyflenwr—
 - (aa) yn fenter fach a chanolig ei maint, neu
 - (bb) yn gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio ac sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol, a
- (d) pan fo'r farchnad ddynamig wedi ei rhannu'n rhannau, y rhan y mae pob un o'r cyflenwyr hynny yn aelod ohoni.

(5) Mae paragraff (6) yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad marchnad ddynamig a gyhoeddir o dan adran 39(4) o Ddeddf 2023 (addasiadau i farchnad ddynamig).

(6) Yr wybodaeth yw—

- (a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(a) i (h),
- (b) y dyddiad y mae'r addasiad yn cael effaith ohono,
- (c) os yw cyflenwr yn cael ei dderbyn i'r farchnad, datganiad i'r perwyl hwnnw ac—
 - (i) ei enw, ei gyfeiriad post cyswllt, ei gyfeiriad e-bost a'i god adnabod unigryw, a
 - (ii) pan fo'r farchnad ddynamig wedi ei rhannu'n rhannau, y rhan y mae'r cyflenwr yn aelod ohoni,
- (d) a yw'r cyflenwr—
 - (i) yn fenter fach a chanolig ei maint, neu
 - (ii) yn gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio ac sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,
- (e) os yw cyflenwr yn cael ei dynnu oddi wrth y farchnad, datganiad i'r perwyl hwnnw ac—
 - (i) ei enw, ei gyfeiriad post cyswllt, ei gyfeiriad e-bost a'i god adnabod unigryw, a
 - (ii) pan fo'r farchnad ddynamig wedi ei rhannu'n rhannau, y rhan y mae'r cyflenwr yn aelod ohoni,

- (f) crynodeb o unrhyw addasiad arall sy'n cael ei wneud, ac
- (g) cadarnhad y cafodd asesiad gwrthdaro ei baratoi a'i ddiwygio yn unol ag adran 83 o Ddeddf 2023.

(7) Mae paragraff (8) yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad marchnad ddynamig a gyhoeddir o dan adran 39(5) o Ddeddf 2023 (diwedd marchnad ddynamig).

(8) Yr wybodaeth yw—

- (a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(a) i (h), a
- (b) y dyddiad y peidiodd y farchnad â gweithredu.

(9) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad mewn hysbysiad marchnad ddynamig.

Hysbysiadau tryloywder

27.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tryloywder a gyhoeddir o dan adran 44(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) enw'r caffaeliad,
- (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,
- (d) yn achos caffaeliad pan fo newid wedi bod i ddyfarniad uniongyrchol yn unol ag adran 43 o Ddeddf 2023, y cod adnabod unigryw a ddyrannwyd i'r caffaeliad cyn y newid i ddyfarniad uniongyrchol,
- (e) y cod adnabod unigryw ar gyfer y contract, os yw hyn yn hysbys pan gyhoeddir yr hysbysiad tryloywder,
- (f) pwnc y contract,
- (g) a yw'r contract cyhoeddus yn gontract cyfundrefn arbennig ac, os felly, a yw—
 - (i) yn gontract consesiwn,
 - (ii) yn gontract cyffyrddiad ysgafn, neu
 - (iii) yn gontract cyfleustodau,
- (h) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr nad yw'n gyflenwr gwaharddedig oherwydd bod cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn gymwys yn unol ag adran 41(1)(a) o Ddeddf 2023,
- (i) os yw is-baragraff (h) yn gymwys, y cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn Atodlen 5 i Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac

esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei fod yn gymwys,

- (j) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr sy'n gyflenwr gwaharddedig oherwydd bod yr awdurdod contractio yn ystyried mai'r hyn sydd o'r budd mwyaf i'r cyhoedd yw dyfarnu'r contract i'r cyflenwr hwnnw yn unol ag adran 41(2) i (5) o Ddeddf 2023,
- (k) os yw is-baragraff (j) yn gymwys—
 - (i) y drosedd, neu ddigwyddiad arall a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf 2023, y mae'r cyflenwr yn gyflenwr gwaharddedig yn rhinwedd y drosedd honno neu'r digwyddiad hwnnw, a
 - (ii) pa sail yn adran 41(5) o Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei fod yn gymwys,
- (l) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr yn unol â rheoliadau sydd wedi eu gwneud o dan adran 42 o Ddeddf 2023 (dyfarniad uniongyrchol er mwyn gwarchod bywyd, etc.),
- (m) os yw is-baragraff (l) yn gymwys, enw a rhif cofrestru'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau hynny,
- (n) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr nad yw'n gyflenwr gwaharddedig yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2023 (newid i ddyfarniad uniongyrchol),
- (o) os yw is-baragraff (n) yn gymwys, y rheswm pam, ym marn yr awdurdod contractio, na fu unrhyw dendrau addas nac unrhyw geisiadau i gymryd rhan drwy gyfeirio at adran 43(2) o Ddeddf 2023, a pham y mae'n ystyried nad yw dyfarniad o dan adran 19 o'r Ddeddf honno yn bosibl o dan yr amgylchiadau,
- (p) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at lotiau ac, os felly—
 - (i) enw pob lot, a
 - (ii) y rhif neilltuol a roddwyd i bob lot gan yr awdurdod contractio,
- (q) amcangyfrif o werth y contract,
- (r) a yw'r awdurdod contractio yn ystyried y gall y contract neu unrhyw lot sy'n ffurfio rhan o'r contract fod yn arbennig o addas i'w ddyfarnu—
 - (i) i fenter fach a chanolig ei maint, neu
 - (ii) i gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio sy'n ailfuddsoddi ei wargedion

yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,

- (s) disgrifiad yn nodi unrhyw risg—
 - (i) y mae'r awdurdod contractio yn ystyried y gallai beri i'r contract beidio â chael ei gyflawni'n foddhaol ond, oherwydd ei natur, y mae'n bosibl na fydd yn cael sylw yn y contract fel y'i dyfernir, a
 - (ii) a all ei gwneud yn ofynnol addasu'r contract yn ddiweddarach o dan baragraff 5 o Atodlen 8 i Ddeddf 2023 (addasu contract yn dilyn gwirediad risg hysbys),
- (t) a yw cyflenwyr wedi eu dethol ar gyfer dyfarnu'r contract,
- (u) os yw cyflenwyr wedi eu dethol ar gyfer dyfarnu'r contract, ar gyfer pob cyflenwr a ddetholwyd—
 - (i) enw'r cyflenwr,
 - (ii) naill ai—
 - (aa) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr, neu
 - (bb) yn achos contract cyhoeddus sydd wedi ei ddyfarnu yn uniongyrchol yn unol â pharagraffau 13 a 14 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023 (sefyllfa frys) pan na fo cod adnabod unigryw wedi ei ddyrannu i'r cyflenwr pan gyhoeddwyd yr hysbysiad tryloywder ond bo'r cyflenwr yn gallu darparu gwybodaeth unigryw yn lle hynny (er enghraifft, rhif cofrestru cwmni a roddwyd o dan DC 2006) y gellir ei chydnabod gan y platfform digidol canolog yn sail ar gyfer cod adnabod unigryw a ddyrennir gan y platfform hwnnw, yr wybodaeth unigryw honno, a
 - (iii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr,
- (v) amcangyfrif o'r dyddiad yr ymrwymir i'r contract, ac
- (w) pan fo'r contract yn fframwaith—
 - (i) cyfnod y fframwaith,
 - (ii) a yw'r fframwaith yn darparu ar gyfer codi ffioedd ar gyflenwr yn unol â'r fframwaith ac, os felly, fanylion y ganran sefydlog a ddefnyddir i godi'r ffi arno yn unol ag adran 45(7) o Ddeddf 2023, a

- (iii) yr awdurdodau contractio a chanddynt hawlogoeth i ddyfarnu contractau yn unol â'r fframwaith (pa un ai drwy restru enwau'r awdurdodau hynny neu drwy ddisgrifio categorïau o awdurdodau).

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

Hysbysiadau dyfarnu contract ac eithrio'r rhai a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat

28.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad dyfarnu contract a gyhoeddir gan awdurdod contractio o dan adran 50(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) enw'r caffaeliad,
- (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer—
 - (i) y caffaeliad,
 - (ii) y contract cyhoeddus,
 - (iii) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn unol â fframwaith, caffaeliad y fframwaith y mae'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn unol ag ef, a
 - (iv) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig, y farchnad ddynamig,
- (d) pwnc y contract,
- (e) ar gyfer pob cyflenwr y dyfernir y contract cyhoeddus iddo—
 - (i) enw'r cyflenwr,
 - (ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr,
 - (iii) naill ai—
 - (aa) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr, neu
 - (bb) yn achos contract cyhoeddus sydd wedi ei ddyfarnu yn uniongyrchol yn unol â pharagraffau 13 a 14 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023 (sefyllfa frys) pan na fo cod adnabod unigryw wedi ei ddyrannu i'r cyflenwr pan gyhoeddwyd yr hysbysiad dyfarnu contract ond bo'r cyflenwr yn gallu darparu gwybodaeth unigryw yn lle hynny (er enghraifft, rhif cofrestru cwmni a roddwyd o dan DC 2006) y gellir ei chydnabod gan y platfform

digidol canolog yn sail ar gyfer
cod adnabod unigryw a ddyrennir
gan y platfform hwnnw, yr
wybodaeth unigryw honno,

- (iv) a yw'r cyflenwr yn gymdeithas o gwmnïau neu'n gonsortiw m arall,
 - (v) a yw'r cyflenwr—
 - (aa) yn fenter fach a chanolig ei maint,
 - (bb) yn gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio ac sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,
 - (cc) yn ddarparwr cyflogaeth â chymorth, neu
 - (dd) yn gwmni cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus,
 - (vi) ar gyfer pob person â chyswllt â'r cyflenwr, enw a chyfeiriad post cyswllt y person (mae i "person â chyswllt" yr ystyr a roddir i "associated person" gan adran 26(4) o Ddeddf 2023), a
 - (vii) gwybodaeth y cyflenwr o ran ei bersonau cysylltiedig yn unol â rheoliad 12, ond gan ddarllen paragraffau (4)(a) ac (8)(a) o'r rheoliad hwnnw fel pe bai pob cyfeiriad at ddyddiad geni yn gyfeiriad at fis a blwyddyn geni, yn ddarostyngedig i baragraff (4) o'r rheoliad hwn,
- (f) y dyddiad y penderfynodd yr awdurdod contractio ddyfarnu'r contract cyhoeddus,
- (g) os yw'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at lotiau, ar gyfer pob lot—
- (i) enw'r cyflenwr y mae'r lot yn cael ei ddyfarnu iddo,
 - (ii) enw'r lot,
 - (iii) y rhif neilltuol a roddwyd i'r lot gan yr awdurdod contractio,
 - (iv) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,
 - (v) crynodeb o'r modd y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau hynny yn cael eu cyflenwi,
 - (vi) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau yn cael eu cyflenwi neu amcangyfrif o'r cyfnod y byddant yn cael eu cyflenwi drosto,

- (vii) amcangyfrif o swm nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,
- (viii) amcangyfrif o werth y lot,
- (ix) y codau GGG perthnasol, a
 - (x) y dosbarthiad daearyddol, pan fo'n bosibl ei ddisgrifio,
- (h) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn unol â fframwaith, manylion ynghylch pa un o'r gweithdrefnau canlynol a ddefnyddiwyd—
 - (i) proses ddethol gystadleuol ar gyfer fframweithiau o dan adran 46 o Ddeddf 2023, neu
 - (ii) dyfarniad heb gystadleuaeth bellach o dan adran 45(4) o Ddeddf 2023,
- (i) pan fo'r contract cyhoeddus yn fframwaith sy'n cael ei ddyfarnu o dan fframwaith agored, y cod adnabod unigryw ar gyfer caffaeliad y fframwaith olaf a ddyfarnwyd o dan y fframwaith agored (oni bai nad oes fframwaith wedi ei ddyfarnu o dan y fframwaith agored yn flaenorol),
- (j) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu o dan ran briodol o farchnad ddynamig, y rhif neilltuol a roddwyd i'r rhan honno gan y person a sefydlodd y farchnad ddynamig,
- (k) a yw'r contract cyhoeddus yn gontract cyfundrefn arbennig ac, os felly, a yw—
 - (i) yn gontract consesiwn,
 - (ii) yn gontract cyffyrddiad ysgafn, neu
 - (iii) yn gontract cyfleustodau,
- (l) a yw'r awdurdod contractio wedi darparu crynodeb asesu i bob cyflenwr a gyflwynodd dendr a aseswyd, yn unol ag adran 50(3) o Ddeddf 2023 ac, os felly, y dyddiad y cafodd y crynodebau asesu hynny eu darparu,
- (m) amcangyfrif o werth y contract cyhoeddus,
- (n) mewn cysylltiad â phob contract cyhoeddus—
 - (i) cyfanswm y tendrau a gyflwynwyd erbyn dyddiad cau'r awdurdod contractio ar gyfer cyflwyno tendrau (gan ddiystyru tendrau a gyflwynwyd ond a dynnwyd yn ôl wedyn),
 - (ii) cyfanswm y tendrau a aseswyd gan yr awdurdod contractio, a
 - (iii) cyfanswm y tendrau aflwyddiannus a aseswyd gan yr awdurdod contractio ac a gyflwynwyd gan—
 - (aa) menter fach a chanolig ei maint, a

- (bb) corff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,

ac eithrio yn achos dyfarniad uniongyrchol o dan adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023,

- (o) pan fo'r contract cyhoeddus yn fframwaith neu y bo wedi ei ddyfarnu mewn ffordd arall nad yw'n unol â fframwaith, manylion ynghylch pa un o'r gweithdrefnau canlynol a ddefnyddiwyd—
 - (i) gweithdrefn agored,
 - (ii) gweithdrefn hyblyg gystadleuol, neu
 - (iii) dyfarniad uniongyrchol o dan adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023,
- (p) a ddefnyddiwyd hysbysiad tendro i neilltuo'r contract i ddarparwyr cyflogaeth â chymorth yn unol ag adran 32 o Ddeddf 2023, a pha un a ddyfarnwyd y contract i gyflenwr o'r fath,
- (q) a ddefnyddiwyd hysbysiad tendro i neilltuo'r contract i gwmnïau cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus yn unol ag adran 33 o Ddeddf 2023, ac a ddyfarnwyd y contract i gyflenwr o'r fath,
- (r) y dyddiad dod i ben ar gyfer unrhyw gyfnod segur o dan adran 51 o Ddeddf 2023 neu, os nad oes unrhyw gyfnod segur yn gymwys, unrhyw ddyddiad cyn pryd y mae'r awdurdod contractio wedi penderfynu yn erbyn ymrwymo i'r contract,
- (s) amcangyfrif o'r dyddiad yr ymrwymir i'r contract,
- (t) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol o dan adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023, yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 27(2)(h) i (o),
- (u) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn unol â fframwaith sy'n cael ei drefnu drwy gyfeirio at lotiau, y rhif neilltuoel a roddwyd gan yr awdurdod contractio i'r lot y mae'r contract yn cael ei ddyfarnu odani, a
- (v) pan fo—
 - (i) y contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at lotiau, a
 - (ii) yr awdurdod contractio yn defnyddio'r hysbysiad dyfarnu contract i roi hysbysiad ei fod yn rhoi'r gorau i gaffael yr holl nwyddau, gwasanaethau a gweithiau a nodir yn un neu ragor o'r lotiau hynny neu mewn unrhyw lotiau o

dan contractau yn y dyfodol o dan y trefniant o dan adran 18(2)(a) o Ddeddf 2023,

gwybodaeth y lot sy'n dod i ben.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr “gwybodaeth y lot sy'n dod i ben” yw—

- (a) yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob lot sy'n dod i ben—
 - (i) enw'r lot,
 - (ii) y rhif neilltuol a roddwyd i'r lot gan yr awdurdod contractio,
 - (iii) y codau GGG perthnasol, a
 - (iv) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a oedd i'w cyflenwi o dan y lot, a
- (b) y dyddiad y penderfynodd yr awdurdod contractio roi'r gorau i'r caffaeliad o dan y lot.

(4) Nid yw'n ofynnol i awdurdod contractio gyhoeddi, yn unol â pharagraff (2)(e)(vii), wybodaeth personau cysylltiedig sy'n wybodaeth sydd wedi ei diogelu mewn perthynas—

- (a) â pherson cysylltiedig sy'n unigolyn sy'n bodloni'r disgrifiad yn rheoliad 12(3)(b) ac (c), neu
- (b) â pherson cysylltiedig sy'n unigolyn sy'n bodloni'r disgrifiad yn rheoliad 12(15)(b).

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr “gwybodaeth sydd wedi ei diogelu” yw gwybodaeth—

- (a) mewn perthynas ag unigolyn a grybwyllir ym mharagraff (4)(a) neu (b), sydd am y tro wedi ei hepgor o gofrestr pobl â rheolaeth sylweddol yn unol â rheoliad 33(1) o Reoliadau Cofrestrau Pobl â Rheolaeth Sylweddol 2016(1), neu
- (b) mewn perthynas ag unigolyn a grybwyllir ym mharagraff (4)(b), yw gwybodaeth y mae'r unigolyn—
 - (i) yn rhesymol o'r farn a nodir ym mharagraff (6) yn ei chylch, a
 - (ii) wedi cadarnhau'r farn honno yn ysgrifenedig i'r awdurdod contractio.

(6) Y farn yw, os bydd yr wybodaeth yn cael ei chyhoeddi—

- (a) y bydd gweithgareddau'r cwmni, neu
- (b) y bydd un neu ragor o nodweddion neu briodoleddau personol yr ymgeisydd pan fydd wedi ei gysylltu â'r cwmni hwnnw,

(1) O.S. 2016/339.

yn rhoi'r ymgeisydd neu berson sy'n byw gyda'r ymgeisydd mewn perygl difrifol o ddiodeff trais neu fygythiad.

(7) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(8) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i awdurdod contractio sy'n gyfleustod preifat.

Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat

29.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustod preifat o dan adran 50(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 28(2)(a) i (q), ac eithrio is-baragraffau (h) ac (n),
- (b) amcangyfrif o'r dyddiad yr ymrwymir i'r contract, ac
- (c) disgrifiad o unrhyw opsiwn yn y contract cyhoeddus—
 - (i) i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol, neu
 - (ii) i estyn neu adnewyddu cyfnod y contract.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad (gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chontractau eraill sydd wedi eu dyfarnu o dan yr un caffaeliad) yn yr hysbysiad.

(4) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys—

- (a) i ddyfarnu contract cyhoeddus yn uniongyrchol o dan adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023 (gweler yn hytrach reoliad 30), neu
- (b) i ddyfarnu contract cyhoeddus yn unol â fframwaith (gweler yn hytrach reoliad 31).

Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat: dyfarniadau uniongyrchol

30.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustod preifat o dan adran 50(1) o Ddeddf 2023 pan gafodd y contract ei ddyfarnu yn uniongyrchol yn unol ag adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 28(2)(a) i (q), ac eithrio is-baragraffau (c)(iii), (c)(iv), (h) i (j), (l) ac (n),

- (b) amcangyfrif o'r dyddiad yr ymrwymir i'r contract,
- (c) disgrifiad o unrhyw opsiwn yn y contract cyhoeddus—
 - (i) i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol, neu
 - (ii) i estyn neu adnewyddu cyfnod y contract,
- (d) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr nad yw'n gyflenwr gwaharddedig oherwydd bod cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn gymwys yn unol ag adran 41(1)(a) o Ddeddf 2023,
- (e) os yw is-baragraff (d) yn gymwys, y cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn Atodlen 5 i Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei fod yn gymwys,
- (f) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr sy'n gyflenwr gwaharddedig oherwydd bod yr awdurdod contractio yn ystyried mai'r hyn sydd o'r budd mwyaf i'r cyhoedd yw dyfarnu'r contract i'r cyflenwr hwnnw yn unol ag adran 41(2) i (5) o Ddeddf 2023,
- (g) os yw is-baragraff (f) yn gymwys—
 - (i) y drosedd, neu ddigwyddiad arall a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf 2023, y mae'r cyflenwr yn gyflenwr gwaharddedig yn rhinwedd y drosedd honno neu'r digwyddiad hwnnw, a
 - (ii) pa sail yn adran 41(5) o Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei bod yn gymwys,
- (h) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 42 o Ddeddf 2023 (dyfarniad uniongyrchol er mwyn gwarchod bywyd, etc.),
- (i) os yw is-baragraff (h) yn gymwys, enw a rhif cofrestru'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau hynny,
- (j) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr nad yw'n gyflenwr gwaharddedig yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2023 (newid i ddyfarniad uniongyrchol), a
- (k) os yw is-baragraff (j) yn gymwys, y rheswm pam, ym marn yr awdurdod contractio, na fu unrhyw dendrau addas nac unrhyw geisiadau i gymryd rhan drwy gyfeirio at adran 43(2) o Ddeddf 2023, a pham y mae'n ystyried nad

yw dyfarniad o dan adran 19 o'r Ddeddf honno yn bosibl o dan yr amgylchiadau.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat: fframweithiau

31.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustod preifat o dan adran 50(1) o Ddeddf 2023 pan fo'r contract yn cael ei ddyfarnu yn unol â fframwaith.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 28(2)(a) i (q), ac eithrio is-baragraffau (c)(iv), (i), (j), (n) ac (o),
- (b) amcangyfrif o'r dyddiad yr ymrwymir i'r contract,
- (c) disgrifiad o unrhyw opsiwn yn y contract cyhoeddus—
 - (i) i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol, neu
 - (ii) i estyn neu adnewyddu cyfnod y contract,
- (d) pan fo'r fframwaith wedi ei drefnu drwy gyfeirio at lotiau, y rhif neilltuol a roddwyd gan yr awdurdod contractio i'r lot y mae'r contract yn cael ei ddyfarnu odani,
- (e) manylion ynghylch pa un o'r gweithdrefnau canlynol a ddefnyddiwyd i ddyfarnu'r contract cyhoeddus—
 - (i) proses ddethol gystadleuol ar gyfer fframweithiau o dan adran 46 o Ddeddf 2023, neu
 - (ii) dyfarniad heb gystadleuaeth bellach o dan adran 45(4) o Ddeddf 2023, ac
- (f) os yw is-baragraff (e)(ii) yn gymwys, esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio wedi ystyried ei fod yn gymwys drwy gyfeirio at adran 45(4) o Ddeddf 2023.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

Crynodebau asesu

32.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi pa wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn crynodeb asesu a ddarperir i gyflenwr o dan adran 50(3) o Ddeddf 2023.

(2) Yn achos y tendr mwyaf manteisiol, yr wybodaeth yw—

- (a) enw'r cyflenwr,
- (b) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost ar gyfer y cyflenwr,
- (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr,
- (d) mewn cysylltiad â'r meini prawf dyfarnu ar gyfer y contract cyhoeddus—
 - (i) y meini prawf dyfarnu, gan gynnwys y fethodoleg asesu, wedi eu nodi'n llawn, neu grynodedb o'r meini prawf dyfarnu, gan gynnwys—
 - (aa) enw pob maen prawf,
 - (bb) pwysigrwydd cymharol pob maen prawf, a
 - (cc) sut yr oedd pob maen prawf i gael ei asesu drwy gyfeirio at sgoriau a pha sgoriau oedd i fod ar gael ar gyfer pob maen prawf, a
 - (ii) os nad yw'r meini prawf dyfarnu, gan gynnwys y fethodoleg asesu, wedi eu nodi'n llawn yn y crynodeb asesu, arwydd o ble y gellir cyrchu'r fersiwn llawn, ac
- (e) sut y cafodd y tendr ei asesu yn erbyn y meini prawf dyfarnu drwy gyfeirio at sgoriau, gan gynnwys—
 - (i) y sgôr a benderfynwyd ar gyfer pob maen prawf dyfarnu ac—
 - (aa) esboniad ynghylch y sgôr honno drwy gyfeirio at wybodaeth berthnasol yn y tendr, a
 - (bb) pan fo maen prawf dyfarnu yn cynnwys is-feini prawf asesu, esboniad ynghylch sut y cafodd y tendr ei asesu drwy gyfeirio at bob is-maen prawf, a
 - (ii) cyfanswm y sgôr ac unrhyw sgoriau is-gyfanswm.

(3) Yn achos unrhyw dendr arall a aseswyd, yr wybodaeth yw—

- (a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(a) i (d),
- (b) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(e), ond dim ond i'r graddau y cafodd y tendr ei asesu yn erbyn y meini prawf dyfarnu,
- (c) unrhyw esboniad pellach ynghylch pam nad yw'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu i'r cyflenwr gan gynnwys, pan fo'r tendr wedi ei ddatgymhwyso o dan y fethodoleg asesu o dan adran 23(3) o Ddeddf 2023, y rhesymau dros y datgymhwyso hwnnw, a

- (d) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(e) mewn cysylltiad â'r tendr mwyaf manteisiol.

(4) Rhaid i'r holl grynodbau asesu mewn cysylltiad â chontract cyhoeddus a ddarperir gan awdurdod contractio i gyflenwyr yn unol ag adran 50(3) o Ddeddf 2023 gael eu darparu ar yr un pryd.

(5) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag darparu gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad mewn crynodeb asesu.

Hysbysiadau manylion contract: gweithdrefn agored neu weithdrefn hyblyg gystadleuol

33.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad manylion contract a gyhoeddir o dan adran 53(1) o Ddeddf 2023 pan ymrwymwyd i'r contract cyhoeddus yn dilyn—

- (a) gweithdrefn agored, neu
- (b) gweithdrefn hyblyg gystadleuol (gan gynnwys drwy gyfeirio at farchnad ddynamig).

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) enw'r caffaeliad,
- (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,
- (d) y cod adnabod unigryw ar gyfer y contract cyhoeddus,
- (e) pan gafodd y contract cyhoeddus ei ddyfarnu drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig, y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig honno,
- (f) pwnc y contract,
- (g) ar gyfer pob cyflenwr sy'n barti i'r contract cyhoeddus—
 - (i) enw'r cyflenwr,
 - (ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr,
 - (iii) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr, a
 - (iv) a yw'r cyflenwr—
 - (aa) yn fenter fach a chanolig ei maint,
 - (bb) yn gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio ac sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,
 - (cc) yn ddarparwr cyflogaeth â chymorth, neu

- (dd) yn gwmni cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus,
- (h) a ddyfarnwyd y contract cyhoeddus yn dilyn—
 - (i) gweithdrefn agored, neu
 - (ii) gweithdrefn hyblyg gystadleuol,
- (i) a oedd y contract wedi ei neilltuo—
 - (i) i ddarparwyr cyflogaeth â chymorth yn unol ag adran 32 o Ddeddf 2023, neu
 - (ii) i gwmnïau cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus yn unol ag adran 33 o Ddeddf 2023,
- (j) os cafodd y contract cyhoeddus ei ddyfarnu drwy gyfeirio at lot—
 - (i) enw'r lot,
 - (ii) y rhif neilltuol a roddwyd i'r lot gan yr awdurdod contractio,
 - (iii) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,
 - (iv) crynodeb o sut y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau hynny yn cael eu cyflenwi,
 - (v) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau yn cael eu cyflenwi neu amcangyfrif o'r cyfnod y byddant yn cael eu cyflenwi drosto,
 - (vi) amcangyfrif o swm nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,
 - (vii) amcangyfrif o werth y lot, a
 - (viii) y codau GGG perthnasol,
- (k) amcangyfrif o werth y contract cyhoeddus,
- (l) y dyddiad yr ymrwymwyd i'r contract cyhoeddus,
- (m) disgrifiad o unrhyw opsiwn yn y contract cyhoeddus—
 - (i) i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol, neu
 - (ii) i estyn neu adnewyddu cyfnod y contract,
- (n) pan gafodd y contract cyhoeddus ei ddyfarnu o dan ran briodol o farchnad ddynamig, y rhif neilltuol a roddwyd i'r rhan honno gan y person a sefydlodd y farchnad ddynamig,
- (o) a yw'r contract cyhoeddus yn gontract cyfundrefn arbennig ac, os felly, a yw—
 - (i) yn gontract consesiwn,
 - (ii) yn gontract cyffyrddiad ysgafn, neu

- (iii) yn gontract cyfleustodau,
- (p) a yw'r contract cyhoeddus yn gontract y mae gan y Deyrnas Unedig rwymedigaethau ar ei gyfer o dan y Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau,
- (q) o'r dyddiad y daw'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel i rym ar gyfer y Deyrnas Unedig, a yw'r contract cyhoeddus yn gontract y mae gan y Deyrnas Unedig rwymedigaethau ar ei gyfer o dan y Cytundeb hwnnw,
- (r) pan gafodd y dangosyddion perfformiad allweddol eu gosod yn unol ag adran 52(1) o Ddeddf 2023—
 - (i) disgrifiad o bob dangosydd perfformiad allweddol, a
 - (ii) pa mor aml y bydd yr awdurdod contractio yn asesu perfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol yn unol ag adran 71(2) o Ddeddf 2023, ac
- (s) pan na chafodd dangosyddion perfformiad allweddol eu gosod yn rhinwedd adran 52(2) o Ddeddf 2023, esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried na ellid asesu perfformiad y cyflenwr o dan y contract yn briodol drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad allweddol.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(4) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i hysbysiad manylion contract pan fo'r contract cyhoeddus yn fframwaith (gweler yn hytrach reoliad 34).

Hysbysiadau manylion contract: fframweithiau

34.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad manylion contract a gyhoeddir o dan adran 53(1) o Ddeddf 2023 pan fo'r contract cyhoeddus yn fframwaith.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 33(2)(a) i (q), ac eithrio is-baragraff (h),
- (b) yr awdurdodau contractio a chanddynt hawlogaeth i ddyfarnu contractau cyhoeddus yn unol â'r fframwaith (pa un ai drwy restru enwau'r awdurdodau hynny neu drwy ddisgrifio categorïau o awdurdodau),
- (c) cyfnod y fframwaith,

- (d) a yw'r fframwaith wedi ei ddyfarnu o dan fframwaith agored,
- (e) pan gafodd y fframwaith ei ddyfarnu o dan fframwaith agored, y cod adnabod unigryw ar gyfer caffaeliad y fframwaith olaf a ddyfarnwyd o dan y fframwaith agored (oni bai nad oes fframwaith wedi ei ddyfarnu o dan y fframwaith agored yn flaenorol),
- (f) pan gafodd y fframwaith ei ddyfarnu o dan fframwaith agored, amcangyfrif o ddyddiad dod i ben y fframwaith agored,
- (g) a ddyfarnwyd y contract cyhoeddus yn dilyn—
 - (i) gweithdrefn agored,
 - (ii) gweithdrefn hyblyg gystadleuol, neu
 - (iii) yn uniongyrchol yn unol ag adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023,
- (h) a yw'r fframwaith yn darparu ar gyfer codi ffioedd ar gyflenwr yn unol â'r fframwaith ac, os felly, fanylion y ganran sefydlog a ddefnyddir i godi'r ffi arno yn unol ag adran 45(7) o Ddeddf 2023,
- (i) y pris sy'n daladwy, neu'r mecanwaith ar gyfer pennu'r pris sy'n daladwy, o dan contract cyhoeddus sydd wedi ei ddyfarnu yn unol â'r fframwaith, a
- (j) manylion y broses ddethol sydd i'w chymhwyso wrth ddyfarnu contract cyhoeddus yn unol â'r fframwaith.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

Hysbysiadau manylion contract: contractau cyhoeddus a ddyfernir yn unol â fframweithiau

35.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad manylion contract a gyhoeddir o dan adran 53(1) o Ddeddf 2023 pan gafodd y contract cyhoeddus ei ddyfarnu yn unol â fframwaith.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 33(2), ac eithrio is-baragraffau (e), (h), (n), (p) a (q),
- (b) y cod adnabod unigryw ar gyfer caffaeliad y fframwaith y mae'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn unol ag ef,
- (c) pan fo'r fframwaith wedi ei drefnu drwy gyfeirio at lotiau, y rhif neilltuol a roddwyd gan yr awdurdod contractio i'r lot y mae'r contract yn cael ei ddyfarnu odani,

- (d) manylion ynghylch pa un o'r gweithdrefnau a ganlyn a ddefnyddiwyd i ddyfarnu'r contract cyhoeddus—
 - (i) proses ddethol gystadleuol ar gyfer fframweithiau o dan adran 46 o Ddeddf 2023, neu
 - (ii) dyfarniad heb gystadleuaeth bellach o dan adran 45(4) o Ddeddf 2023, ac
- (e) os yw is-baragraff (d)(ii) yn gymwys, esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio wedi ystyried ei fod yn gymwys drwy gyfeirio at adran 45(4) o Ddeddf 2023.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

Hysbysiadau manylion contract: dyfarniad uniongyrchol

36.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad manylion contract a gyhoeddir o dan adran 53(1) o Ddeddf 2023 pan fo'r contract cyhoeddus wedi ei ddyfarnu yn uniongyrchol yn unol ag adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 33(2), ac eithrio is-baragraffau (e), (h) ac (n),
- (b) a gafodd y contract ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr nad yw'n gyflenwr gwaharddedig oherwydd bod cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn gymwys yn unol ag adran 41(1)(a) o Ddeddf 2023,
- (c) os yw is-baragraff (b) yn gymwys, y cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn Atodlen 5 i Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei fod yn gymwys,
- (d) a gafodd y contract ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr sy'n gyflenwr gwaharddedig oherwydd bod yr awdurdod contractio wedi ystyried mai'r hyn sydd o'r budd mwyaf i'r cyhoedd yw dyfarnu'r contract i'r cyflenwr hwnnw yn unol ag adran 41(2) i (5) o Ddeddf 2023,
- (e) os yw is-baragraff (d) yn gymwys, pa sail yn adran 41(5) o Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei bod yn gymwys,
- (f) a gafodd y contract ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 42 o Ddeddf 2023

(dyfarnu'n uniongyrchol er mwyn gwarchod bywyd, etc.),

- (g) os yw is-baragraff (f) yn gymwys, enw a rhif cofrestru'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau hynny,
- (h) a gafodd y contract ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr nad yw'n gyflenwr gwaharddedig yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2023 (newid i ddyfarniad uniongyrchol),
- (i) os yw is-baragraff (h) yn gymwys, esboniad, ym marn yr awdurdod contractio, ynghylch pam na fu unrhyw dendrau addas nac unrhyw geisiadau i gymryd rhan drwy gyfeirio at adran 43(2) o Ddeddf 2023 a pham y mae'n ystyried nad yw dyfarniad o dan adran 19 o'r Ddeddf honno yn bosibl o dan yr amgylchiadau,
- (j) a gafodd y contract ei ddyfarnu i gyflenwr sy'n gyflenwr gwaharddedig yn rhinwedd adran 41(2) o Ddeddf 2023, a
- (k) os yw is-baragraff (j) yn gymwys, y drosedd, neu'r digwyddiad arall a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf 2023, sydd o dan sylw.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(4) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i hysbysiad manylion contract pan fo'r contract cyhoeddus yn fframwaith (gweler yn hytrach reoliad 34).

Hysbysiadau manylion contract: contractau sydd o dan y trothwy

37.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad manylion contract a gyhoeddir o dan adran 87(3) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) enw'r caffaeliad,
- (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,
- (d) y cod adnabod unigryw ar gyfer y contract,
- (e) ar gyfer pob cyflenwr sy'n barti i'r contract—
 - (i) enw'r cyflenwr,
 - (ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr,
 - (iii) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr, a
 - (iv) a yw'r cyflenwr—

- (aa) yn fenter fach a chanolig ei maint, neu
- (bb) yn gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio ac sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,
- (f) pwnc y contract,
- (g) a gafodd y contract ei ddyfarnu drwy gyfeirio at lotiau ac, os felly—
 - (i) enw pob lot o dan y contract,
 - (ii) y rhif neilltuol a roddwyd i bob lot gan yr awdurdod contractio,
- (h) a yw'r contract yn gontract cyffyrddiad ysgafn,
- (i) a gafodd y contract ei ddyfarnu drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig ac, os felly—
 - (i) y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig, a
 - (ii) pan gafodd y contract cyhoeddus ei ddyfarnu o dan ran briodol o farchnad ddynamig (gweler adran 34(1) a (6) o Ddeddf 2023), y rhif neilltuol a roddwyd i'r rhan honno gan yr awdurdod contractio,
- (j) amcangyfrif o werth y contract,
- (k) y dyddiad yr ymrwymwyd i'r contract, ac
- (l) disgrifiad o unrhyw opsiwn yn y contract—
 - (i) i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol, neu
 - (ii) i estyn neu adnewyddu cyfnod y contract,

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

Hysbysiadau terfynu caffaeliad

38.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi pa wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad terfynu caffaeliad a gyhoeddir o dan adran 55(2) o Ddeddf 2023.

- (2) Yr wybodaeth yw—
 - (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
 - (b) enw'r caffaeliad,
 - (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,
 - (d) datganiad i'r perwyl bod yr awdurdod contractio, yn dilyn cyhoeddi hysbysiad tendr neu hysbysiad tryloywder mewn cysylltiad â

contract, wedi penderfynu peidio â dyfarnu'r contract, ac

- (e) y dyddiad y penderfynodd yr awdurdod contractio beidio â dyfarnu'r contract cyhoeddus.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad mewn hysbysiad terfynu caffael.

Hysbysiadau cydymffurfedd taliadau

39.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi pa wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad cydymffurfedd taliadau a gyhoeddir o dan adran 69(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) dyddiadau diwrnodau cyntaf ac olaf y cyfnod adrodd y mae'r hysbysiad cydymffurfedd taliadau yn ymwneud ag ef,
- (c) mewn cysylltiad â symiau a dalwyd gan yr awdurdod contractio o dan gontractau cyhoeddus yn ystod y cyfnod adrodd—
 - (i) nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i wneud y taliadau hynny, lle diwrnod 1 yw'r diwrnod cyntaf ar ôl y diwrnod anfonebu;
 - (ii) y ganran o'r taliadau hynny a gafodd eu gwneud, lle diwrnod 1 yw'r diwrnod cyntaf ar ôl y diwrnod anfonebu—
 - (aa) o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod 1 ac yn gorffen â diwrnod 30;
 - (bb) o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod 31 ac yn gorffen â diwrnod 60;
 - (cc) ar neu ar ôl diwrnod 61,
- (d) mewn cysylltiad â symiau a ddaeth yn daladwy o dan gontractau cyhoeddus yn ystod y cyfnod adrodd, y ganran o'r taliadau hynny na chawsant eu gwneud o fewn y cyfnod adrodd, ac
- (e) datganiad gan y cyfarwyddwr, neu swyddog tebyg o'r awdurdod contractio sy'n gyfrifol am gyllid yr awdurdod contractio, yn nodi bod y person yn cymeradwyo'r hysbysiad cydymffurfedd taliadau, ac yn nodi enw a theitl swydd y person hwnnw.

(3) Ym mharagraff (2)—

ystyr "cyfartalog" ("average") yw'r cymedr rhifyddol;

ystyr “diwrnod anfonebu” (“*invoice day*”) yw’r dyddiad y mae anfoneb yn dod i law awdurdod contractio.

(4) At ddibenion paragraff (2), gwneir taliad—

- (a) pan fydd yn dod i law’r cyflenwr, neu
- (b) os oes unrhyw oedi cyn i’r taliad ddod i law nad yw’r awdurdod contractio yn gyfrifol amdano, pan fyddai wedi dod i law heb yr oedi hwnnw.

(5) Ym mharagraff (3) mae’r cyfeiriad at anfoneb sy’n dod i law awdurdod contractio yn gyfeiriad at yr anfoneb yn cael ei danfon i gyfeiriad, neu drwy system anfonebu electronig, sydd wedi ei bennu neu ei phennu yn y contract at y diben.

(6) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth berthnasol arall yn yr hysbysiad.

(7) Yn y rheoliad hwn, mae i “cyfnod adrodd” a “hysbysiad cydymffurfedd taliadau” yr ystyron ag a roddir i “reporting period” a “payments compliance notice” gan adran 69 o Ddeddf 2023.

Hysbysiadau cyflawni contract ac eithrio mewn perthynas â therfynu’n llawn

40.—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch gwybodaeth sydd wedi ei chyhoeddi o dan y naill neu’r llall o’r darpariaethau canlynol—

- (a) adran 71(2)(b) o Ddeddf 2023 (asesu perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol);
- (b) adran 71(5) o’r Ddeddf honno (torri contract cyhoeddus neu fethu â chyflawni).

(2) Rhaid cyhoeddi’r wybodaeth ar ffurf hysbysiad o’r enw “Hysbysiad Cyflawni Contract”.

(3) Pan fo’r wybodaeth yn cael ei chyhoeddi o dan adran 71(2)(b) o Ddeddf 2023, rhaid i’r hysbysiad gynnwys yr wybodaeth a nodir ym mharagraff (4).

(4) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) enw’r caffaeliad,
- (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer—
 - (i) y caffaeliad, a
 - (ii) y contract cyhoeddus,
- (d) y dangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi eu gosod yn unol ag adran 52(1) o Ddeddf 2023,
- (e) datganiad bod yr hysbysiad yn cael ei ddefnyddio i nodi asesiad yr awdurdod contractio o berfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol,

- (f) ar gyfer pob cyflenwr y mae ei berfformiad wedi ei asesu yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol—
 - (i) enw'r cyflenwr,
 - (ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr, a
 - (iii) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr,
- (g) asesiad yr awdurdod contractio o berfformiad yn erbyn y dangosyddion yn unol â'r sgoriau a nodir ym mharagraff (5), ac
- (h) y cyfnod amser y mae asesiad yr awdurdod contractio yn gymwys iddo.

(5) Mae'r sgoriau fel a ganlyn—

<i>Sgôr</i>	<i>Disgrifiad</i>
Da	Mae'r perfformiad yn bodloni neu'n rhagori ar y dangosyddion perfformiad allweddol
Nesáu at y targed	Mae'r perfformiad yn nesáu at fodloni'r dangosyddion perfformiad allweddol
Angen gwella	Mae'r perfformiad islaw'r dangosyddion perfformiad allweddol
Annigonol	Mae'r perfformiad yn sylweddol islaw'r dangosyddion perfformiad allweddol
Arall	Ni ellir disgrifio'r perfformiad fel un sy'n dda, yn nesáu at y targed, angen ei wella, nac yn annigonol

(6) Pan fo'r wybodaeth yn cael ei chyhoeddi o dan adran 71(5) o Ddeddf 2023, rhaid i'r hysbysiad gynnwys yr wybodaeth a nodir ym mharagraff (7).

(7) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) enw'r caffaeliad,
- (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer—
 - (i) y caffaeliad, a
 - (ii) y contract cyhoeddus,
- (d) ar gyfer pob cyflenwr sydd wedi cyflawni'r torri neu'r methiant i gyflawni a nodir yn yr hysbysiad—
 - (i) enw'r cyflenwr,
 - (ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr, a

- (iii) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr,
- (e) yr wybodaeth y cyfeirir ati—
 - (i) yn adran 71(5)(a) o Ddeddf 2023 (bod adran 71(5) o'r Ddeddf honno yn gymwys), a
 - (ii) yn adran 71(5)(b) o Ddeddf 2023 (yr amgylchiadau sy'n arwain at gymhwyso adran 71(5) o'r Ddeddf honno),
- (f) datganiad bod yr wybodaeth yn cael ei chyhoeddi oherwydd—
 - (i) bod y cyflenwr wedi torri'r contract cyhoeddus a bod y torri wedi arwain at un o'r digwyddiadau y cyfeirir atynt yn adran 71(3)(b), neu
 - (ii) nad yw'r cyflenwr yn cyflawni contract cyhoeddus er boddhad yr awdurdod contractio,
- (g) pan fo'r cyflenwr wedi torri'r contract cyhoeddus, pa un neu ragor o'r canlynol a ddigwyddodd o ganlyniad i'r torri—
 - (i) terfynu'r contract cyhoeddus yn rhannol;
 - (ii) dyfarndalu iawndal;
 - (iii) dod i gytundeb setlo rhwng y cyflenwr a'r awdurdod contractio,
- (h) pan fo'r cyflenwr wedi torri'r contract cyhoeddus, dyddiad—
 - (i) unrhyw derfyniad rhannol o'r contract cyhoeddus,
 - (ii) unrhyw ddyfarndaliad iawndal, neu
 - (iii) unrhyw setliad,
- (i) pan na fo'r cyflenwr yn cyflawni'r contract cyhoeddus er boddhad yr awdurdod contractio, y dyddiad yr ystyriodd yr awdurdod contractio fod y cyflenwr wedi methu â gwella ei berfformiad yn unol ag adran 71(4)(c),
- (j) esboniad ynghylch natur y rhwymedigaeth contractiol sydd wedi ei thorri neu nad yw'n cael ei chyflawni er boddhad yr awdurdod contractio,
- (k) esboniad ynghylch natur y torri neu'r methiant i gyflawni, gan gynnwys—
 - (i) esboniad ynghylch effaith neu ganlyniadau'r torri neu'r methiant i gyflawni,
 - (ii) am ba hyd y mae'r torriad neu'r methiant i gyflawni wedi digwydd ac a yw'n parhau,
 - (iii) esboniad ynghylch unrhyw gamau a gymerwyd gan y cyflenwr i liniaru

effaith neu ganlyniadau'r toriad neu'r methiant i gyflawni,

- (iv) unrhyw gamau y mae'r awdurdod contractio wedi eu cymryd i hysbysu'r cyflenwr am y torri neu'r methiant i gyflawni a'i annog i wella'r sefyllfa, gan gynnwys—
 - (aa) unrhyw hysbysiadau rhybuddio a roddwyd o dan y contract cyhoeddus, neu
 - (bb) unrhyw gyfle i wella perfformiad, a
- (v) pa gamau, os o gwbl, a gymerwyd gan y cyflenwr i wella'r sefyllfa a pham nad oedd y rhain yn ddigon,
- (l) pan fo'r toriad wedi arwain at derfynu'r contract cyhoeddus yn rhannol, disgrifiad o ba ran o'r contract sydd wedi ei derfynu'n rhannol, neu i ba raddau y mae'r contract wedi ei derfynu'n rhannol, ac
- (m) pan fo iawndal wedi ei ddyfarndalu neu pan fo arian arall wedi ei dalu yn dilyn toriad neu fethiant i gyflawni—
 - (i) cadarnhad mai dyna'r sefyllfa,
 - (ii) swm yr iawndal neu arian arall,
 - (iii) y sail y cafodd unrhyw iawndal ei ddyfarndalu neu y cafodd unrhyw arian arall ei dalu arni, er enghraifft—
 - (aa) yn achos iawndal, yn unol â'r contract cyhoeddus,
 - (bb) yn achos iawndal, yn unol â phenderfyniad llys neu dribiwnlys, neu
 - (cc) yn achos arian arall, yn unol â setliad wedi ei negodi, a
 - (iv) pan fo cofnod wedi ei wneud o benderfyniad llys neu dribiwnlys ynghylch ei ganfyddiad bod toriad wedi digwydd—
 - (aa) dolen i'r dudalen we lle y gellir cyrchu'r penderfyniad, neu
 - (bb) copi o'r penderfyniad.

(8) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(9) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi yn unol ag adran 71(5) o Ddeddf 2023 pan fo toriad wedi arwain at derfynu contract cyhoeddus yn llawn (gweler yn hytrach reoliad 42).

Hysbysiadau newid contract

41.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad newid contract a gyhoeddir o dan adran 75(1) neu (5) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

- (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
- (b) enw'r caffaeliad,
- (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,
- (d) y cod adnabod unigryw ar gyfer y contract,
- (e) ar gyfer pob cyflenwr sy'n barti i'r contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy—
 - (i) enw'r cyflenwr,
 - (ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr, a
 - (iii) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr,
- (f) a oes gan yr awdurdod contractio ganiatâd i wneud yr addasiad i'r contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy oherwydd bod yr addasiad, yn rhinwedd adran 74(1)(a) o Ddeddf 2023, yn addasiad a ddisgrifir—
 - (i) ym mharagraffau 2 a 3 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno (sefyllfa frys a gwarchod bywyd, etc.),
 - (ii) ym mharagraff 4 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno (amgylchiadau nad ydynt yn rhagweladwy),
 - (iii) ym mharagraffau 5 i 7 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno (gwireddiad risg hysbys),
 - (iv) ym mharagraff 8 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno (nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol), neu
 - (v) ym mharagraff 9 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno (trosglwyddo ar adeg ailstrwythuro corfforaethol),(pan fo'r addasiad wedi ei ganiatáu o dan un o'r darpariaethau hynny),
- (g) esboniad ynghylch pam y mae'r addasiad yn dod o fewn un o'r mathau o addasiadau a grybwyllir yn is-baragraff (f),
- (h) manylion ynghylch unrhyw newid o ganlyniad i'r addasiad—
 - (i) i werth amcangyfrifedig y contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy yn union cyn yr addasiad, neu
 - (ii) i gyfnod y contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy,
- (i) pan fo'r addasiad yn addasiad a ddisgrifir ym mharagraff 9 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno

(trosglwyddo ar adeg ailstrwythuro corfforaethol)—

- (i) ar gyfer pob cyflenwr newydd sy'n barti i'r contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy—
 - (aa) enw'r cyflenwr,
 - (bb) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr, ac
 - (cc) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr, a
- (ii) ar gyfer pob cyflenwr na fydd yn barti i'r contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy mwyach, yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (i)(aa) i (cc),
- (j) amcangyfrif o'r dyddiad—
 - (i) pan fydd y contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy yn cael ei addasu, a
 - (ii) pan fydd yr addasiad yn cael effaith, a
- (k) a yw cyfnod segur gwirfoddol yn gymwys yn unol ag adran 76(1) o Ddeddf 2023 ac, os felly, hyd y cyfnod hwnnw.

(3) Ar gyfer darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gyhoeddi contractau fel y'u haddasir neu gyhoeddi addasiadau mewn achosion penodol, gweler adran 77 o Ddeddf 2023.

(4) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "hysbysiad newid contract" yr ystyr a roddir i "contract change notice" gan adran 75(3) o Ddeddf 2023.

Hysbysiadau terfynu contract

42.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad terfynu contract a gyhoeddir o dan adran 80(1) o Ddeddf 2023.

- (2) Yr wybodaeth yw—
 - (a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,
 - (b) enw'r caffaeliad,
 - (c) y cod adnabod unigryw ar gyfer—
 - (i) y caffaeliad, a
 - (ii) y contract cyhoeddus,
 - (d) ar gyfer pob cyflenwr sy'n barti i'r contract cyhoeddus—
 - (i) enw'r cyflenwr,
 - (ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr, a

- (iii) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr,
- (e) y rhesymau dros derfynu'r contract cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw reswm a grybwyllir yn adran 80(3) o Ddeddf 2023),
- (f) y dyddiad y cafodd y contract cyhoeddus ei derfynu,
- (g) amcangyfrif o werth y contract cyhoeddus,
- (h) pan fo'r contract cyhoeddus wedi ei derfynu o ganlyniad i dorri'r contract gan y cyflenwr—
 - (i) datganiad bod adran 71(5) o Ddeddf 2023 yn gymwys oherwydd bod y cyflenwr wedi torri'r contract,
 - (ii) a arweiniodd y torri at—
 - (aa) dyfarndalu iawndal, neu
 - (bb) dod i gytundeb setlo rhwng y cyflenwr a'r awdurdod contractio,
 - (iii) dyddiad—
 - (aa) unrhyw ddyfarndaliad o unrhyw iawndal, neu
 - (bb) unrhyw setliad,
 - (iv) pan na chyflawnodd y cyflenwr y contract cyhoeddus er boddhad yr awdurdod contractio, y dyddiad yr ystyriodd yr awdurdod contractio fod y cyflenwr wedi methu â gwella ei berfformiad yn unol ag adran 71(4)(c),
 - (v) esboniad ynghylch natur y rhwymedigaeth gontractiol a gafodd ei thorri neu nad oedd yn cael ei chyflawni er boddhad yr awdurdod contractio,
 - (vi) esboniad ynghylch natur y torri neu'r methiant i gyflawni, gan gynnwys—
 - (aa) esboniad ynghylch effaith neu ganlyniadau'r torriad neu'r methiant i gyflawni,
 - (bb) am ba hyd yr oedd y torriad neu'r methiant i gyflawni wedi digwydd,
 - (cc) esboniad ynghylch unrhyw gamau a gymerwyd gan y cyflenwr i liniaru effaith neu ganlyniadau'r torriad neu'r methiant i gyflawni,
 - (dd) unrhyw gamau a gymerwyd gan yr awdurdod contractio i hysbysu'r cyflenwr am y torriad neu'r methiant i gyflawni a'i annog i wella'r sefyllfa, gan gynnwys unrhyw hysbysiadau rhybuddio a roddwyd o dan y contract cyhoeddus neu unrhyw gyfle priodol arall i wella perfformiad

yn unol ag adran 71(4)(b) o Ddeddf 2023,

- (ee) pa gamau, os o gwbl, a gymerwyd gan y cyflenwr i wella'r sefyllfa a pham nad oedd y rhain yn ddigon, a
- (vii) pan fo iawndal wedi ei ddyfarndalu neu pan fo arian arall wedi ei dalu yn dilyn y toriad neu'r methiant i gyflawni—
 - (aa) cadarnhad bod hyn wedi digwydd,
 - (bb) swm yr iawndal neu'r arian arall a dalwyd,
 - (cc) y sail y dyfarndalwyd yr iawndal neu y talwyd yr arian arall arni, er enghraifft yn unol â'r contract cyhoeddus, penderfyniad llys neu dribiwnlys neu setliad wedi ei negodi, a
 - (dd) pan fo cofnod wedi ei wneud o benderfyniad llys neu dribiwnlys ynghylch ei ganfyddiad bod toriad wedi digwydd, dolen i'r dudalen we lle gellir cyrchu'r penderfyniad neu gopi o'r penderfyniad.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae i "hysbysiad terfynu contract" yr ystyr a roddir i "contract termination notice" gan adran 80(2) o Ddeddf 2023.

RHAN 3

Darpariaethau eraill sy'n ychwanegu at Ddeddf 2023

Pennu gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn a gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn neilltuadwy

43.—(1) At ddibenion adran 9(1) o Ddeddf 2023 (contractau cyffyrddiad ysgafn) mae'r gwasanaethau a gwmpesir gan y codau GGG a nodir yng ngholofn (1) o'r Tabl yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn ac a ddisgrifir yng ngholofn (2) o'r Tabl hwnnw wedi eu pennu yn wasanaethau cyffyrddiad ysgafn.

(2) At ddibenion adran 33(7) o Ddeddf 2023 (neilltuo contractau i gwmnïau cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus), mae gwasanaeth a bennir yng ngholofnau (1) a (2) o'r Tabl yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn wedi ei bennu yn wasanaeth cyffyrddiad ysgafn neilltuadwy pan fo'r llythyren "N" yn ymddangos yn y cofnod sy'n cyfateb i'r gwasanaeth hwnnw yng ngholofn (3).

Awdurdodau llywodraeth ganolog

44.—(1) Mae'r holl endidau a restrir yng ngholofn (1) neu (2) o'r Tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn wedi eu pennu at ddibenion y diffiniad o "central government authority" ym mharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2023.

(2) Pan fo endid a restrir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn yn cael ei olynu gan endid arall, sydd ei hun yn awdurdod contractio, bernir bod yr endid olynol wedi ei gynnwys yn yr Atodlen.

Ystyr "works" ym mharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2023

45. At ddibenion y diffiniad o "works" ym mharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2023, ystyr "gweithiau" yw unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau sy'n dod o fewn cod GGG sydd wedi ei restru yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

RHAN 4

Diwygiadau canlyniadol

Diwygio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

46.—(1) Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023(1) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 25 (dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol: contractau adeiladu mawr), yn is-adran (2), yn lle'r geiriau o "sydd", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, hyd at y diwedd rhodder—

"sy'n contract gweithiau sydd â gwerth amcangyfrifedig o £2,000,000 neu fwy."

(3) Yn adran 45 (dehongli Rhan 3), yn is-adran (1)—

(a) hepgorer y diffiniadau o—

- (i) "y Rheoliadau Contractau Consesiwn",
- (ii) "y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus",
- (iii) "contract gweithiau cyhoeddus",
- (iv) "y Rheoliadau Contractau Cyfleustodau",
a

(v) "contract consesiwn gweithiau";

(b) yn y diffiniad o "gweithiau", yn lle'r geiriau o "yr ystyr a roddir" hyd at y diwedd, rhodder ("works") yr ystyr a roddir gan reoliad 45 o

(1) 2023 dsc 1.

Reoliadau Caffael (Cymru) 2024 ac Atodlen 3 iddynt(1)”;

- (c) yn y diffiniad o “contract gweithiau”, yn lle’r geiriau o “yr ystyr a roddir” hyd at y diwedd, rhodder “yr ystyr a roddir i “works contract” gan baragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael 2023 (p. 54);”.

(4) Yn adran 45 (dehongli Rhan 3), yn is-adran (2), yn lle “â rheoliad 6(1) o’r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus” rhodder “ag adran 4 o Ddeddf Caffael 2023”.

Diwygio Deddf 2023

47.—(1) Mae Deddf 2023 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 17 (hysbysiadau ymgysylltu rhagarweiniol â’r farchnad), yn is-adran (3) hepgorer y geiriau a ganlyn “other than to a private utility which is a devolved Welsh authority that is not carrying out procurement under a reserved procurement arrangement or a transferred Northern Ireland procurement arrangement.”

(3) Yn adran 87 (contractau rheoleiddiedig sydd o dan y trothwy: hysbysiadau), yn lle is-adran (4)(a) rhodder—

“(a) in the case of a contract to be awarded by—

- (i) a central government authority that is not a devolved Welsh authority, not less than £12,000;
- (ii) a central government authority that is a devolved Welsh authority, not less than £30,000, or”.

Diwygio Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003

48. Yn Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003(2), yn rheoliad 9(1) (ymgyngori ynghylch contractau), yn lle’r geiriau o “os” hyd at y diwedd rhodder “pan na fo gwerth amcangyfrifedig y contract arfaethedig yn llai na’r trothwy sy’n gymwys i’r awdurdod perthnasol ar gyfer y contract arfaethedig hwnnw yn unol ag adran 3 o Ddeddf Caffael 2023”.

(1) O.S. 2024/xxxx.

(2) O.S. 2003/2909 (Cy. 275). Diwygiwyd rheoliad 9(1) gan O.S. 2006/5, Atodlen 7(1), paragraff 4 ac O.S. 2015/102, Atodlen 6(2), paragraff 13.

Diwygio Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004

49. Yn Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004(1), yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o “hysbysiad cyhoeddus”, yn lle “hysbysiad a gyhoeddir, yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, ar wasanaeth e-hysbysu’r DU (fel y’i diffinnir gan y Rheoliadau hynny)” rhodder “unrhyw hysbysiad a gyhoeddir yn unol â Deddf Caffael 2023 sy’n ymwneud â chontract cyhoeddus (o fewn yr ystyr a roddir i “public contract” gan adran 3 o’r Ddeddf honno)”.

Diwygio Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

50.—(1) Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 18 (caffael cyhoeddus)—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “gwneud cytundeb perthnasol ar sail y cynnig mwyaf manteisiol yn economaidd” rhodder “dyfarnu contract cyhoeddus yn dilyn gweithdrefn dendro gystadleuol”;
- (b) ym mharagraff (2), yn lle “cytundeb perthnasol” rhodder “contract cyhoeddus”;
- (c) yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Yn y rheoliad hwn, mae i “meini prawf”, “gweithdrefn dendro gystadleuol”, “awdurdod contractio” a “contract cyhoeddus” yr un ystyr ag a roddir i “award criteria”, “competitive tendering procedure”, “contracting authority” a “public contract” yn y drefn honno yn Neddf Caffael 2023.”

Diwygio Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Canlyniadol ac Atodol) 2018

51. Yn Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Canlyniadol ac Atodol) 2018(3), hepgorer rheoliad 2.

-
- (1) O.S. 2004/684 (Cy. 72). Diwygiwyd rheoliad 2(1) gan O.S. 2006/5, Atodlen 7(1), paragraff 5 ac O.S. 2019/116, rheoliad 2.
 - (2) O.S. 2011/1064 (Cy. 155). Diwygiwyd rheoliad 18 gan O.S. 2019/120, rheoliad 2.
 - (3) O.S. 2018/285 (Cy. 54).

**Diwygio Rheoliadau Cymorth Amaethyddol
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r
UE) 2021**

52. Yn Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021(1), yn rheoliad 6, hepgorer paragraff (27)(ii).

**Diwygio Rheoliadau Caffael Cyhoeddus
(Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio)
(Cymru) (Rhif 2) 2023**

53. Yn Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023(2), hepgorer rheoliadau 2 i 5.

**Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd
Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013**

54. Yn Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013(3), yn Erthygl 68a(1), yn lle "the threshold set out in regulation 5 of the Public Contracts Regulations 2015" rhodder "the relevant threshold amount set out in Schedule 1 to the Procurement Act 2023".

Enw

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(1) O.S. 2021/400 (Cy. 129).

(2) O.S. 2023/567 (Cy. 88).

(3) Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Rheoliad 43

Gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn

Cod GGG (1)	Gwasanaeth (2)	Neilltuadwy (3)
------------------------------	---------------------------------	----------------------------------

Gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig

75231200	Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chadw neu adsefydlu troseddwy	
75231240	Gwasanaethau prawf	
79611000	Gwasanaethau chwilio am swydd	
79622000	Gwasanaethau cyflenwi personél cymorth domestig	N
79624000	Gwasanaethau cyflenwi personél nyrsio	N
79625000	Gwasanaethau cyflenwi personél meddygol	N
85000000	Gwasanaethau iechyd a gwaith cymdeithasol	N
85100000	Gwasanaethau iechyd	N
85110000	Gwasanaethau ysbyty a gwasanaethau cysylltiedig	N
85111000	Gwasanaethau ysbyty	N
85111100	Gwasanaethau ysbyty llawfeddygol	N
85111200	Gwasanaethau ysbyty meddygol	N
85111300	Gwasanaethau ysbyty gynaeolegol	N
85111310	Gwasanaethau ffrwythloni in vitro	N
85111320	Gwasanaethau ysbyty obstetrig	N
85111400	Gwasanaethau ysbyty adsefydlu	N
85111500	Gwasanaethau ysbyty seiciatrig	N
85111600	Gwasanaethau orthoteg	N
85111700	Gwasanaethau therapi ocsigen	N

85111800	Gwasanaethau patholeg	N
85111810	Gwasanaethau dadansoddi gwaed	N
85111820	Gwasanaethau dadansoddi bacteriolegol	N
85111900	Gwasanaethau dialysis ysbyty	N
85112000	Gwasanaethau cymorth ysbyty	N
85112100	Gwasanaethau gwelyau ysbyty	N
85112200	Gwasanaethau gofal i gleifion allanol	N
85120000	Gwasanaethau ymarfer meddygol a gwasanaethau cysylltiedig	N
85121000	Gwasanaethau ymarfer meddygol	N
85121100	Gwasanaethau ymarfer cyffredinol	N
85121200	Gwasanaethau arbenigol meddygol	N
85121210	Gwasanaethau gynaeoleg neu obstetreg	N
85121220	Gwasanaethau arbenigol arenneg neu'r system nerfol	N
85121230	Gwasanaethau cardioleg neu wasanaethau arbenigol yr ysgyfaint	N
85121231	Gwasanaethau cardioleg	N
85121232	Gwasanaethau arbenigol yr ysgyfaint	N
85121240	Gwasanaethau'r glust, y trwyn a'r gwddf neu wasanaethau awdiolegydd	N
85121250	Gwasanaethau gastroenteroleg a geriatreg	N
85121251	Gwasanaethau gastroenteroleg	N
85121252	Gwasanaethau geriatreg	N
85121270	Gwasanaethau seiciatreg neu seicoleg	N
85121271	Gwasanaethau cartref ar gyfer pobl â phroblemau seicolegol	N
85121280	Gwasanaethau offthalmoleg, dermatoleg neu orthopaedeg	N
85121281	Gwasanaethau offthalmoleg	N
85121282	Gwasanaethau dermatoleg	N
85121283	Gwasanaethau orthopaedeg	N
85121290	Gwasanaethau paediatreg neu wroleg	N

85121291	Gwasanaethau paediatreg	N
85121292	Gwasanaethau wroleg	N
85121300	Gwasanaethau arbenigol llawfeddygol	N
85130000	Gwasanaethau ymarfer deintyddol a gwasanaethau cysylltiedig	N
85131000	Gwasanaethau ymarfer deintyddol	N
85131100	Gwasanaethau orthodonteg	N
85131110	Gwasanaethau llawfeddygaeth orthodontig	N
85140000	Gwasanaethau iechyd amrywiol	N
85141000	Gwasanaethau a ddarperir gan bersonél meddygol	N
85141100	Gwasanaethau a ddarperir gan fydwragedd	N
85141200	Gwasanaethau a ddarperir gan nyrsys	N
85141210	Gwasanaethau triniaeth feddygol yn y cartref	N
85141211	Gwasanaethau triniaeth feddygol dialysis yn y cartref	N
85141220	Gwasanaethau cynghori a ddarperir gan nyrsys	N
85142000	Gwasanaethau parafeddygol	N
85142100	Gwasanaethau ffisiotherapi	N
85142200	Gwasanaethau homeopathi	N
85142300	Gwasanaethau hylendid	N
85142400	Danfôn cynhyrchion anymataliaeth i'r cartref	N
85143000	Gwasanaethau ambiwlans	N
85144000	Gwasanaethau cyfleusterau iechyd preswyl	N
85144100	Gwasanaethau gofal nyrsio preswyl	N
85145000	Gwasanaethau a ddarperir gan labordai meddygol	N
85146000	Gwasanaethau a ddarperir gan fanciau gwaed	N
85146100	Gwasanaethau a ddarperir gan fanciau sberm	N
85146200	Gwasanaethau a ddarperir gan fanciau organau trawsblannu	N
85147000	Gwasanaethau iechyd cwmni	N

85148000	Gwasanaethau dadansoddi meddygol	N
85149000	Gwasanaethau fferylliaeth	N
85150000	Gwasanaethau delweddu meddygol	N
85160000	Gwasanaethau optegydd	N
85170000	Gwasanaethau aciwbigo a chiropracteg	N
85171000	Gwasanaethau aciwbigo	N
85172000	Gwasanaethau ciropracteg	N
85200000	Gwasanaethau milfeddygaeth	N
85210000	Meithrinfeydd anifeiliaid domestig	N
85300000	Gwasanaethau gwaith cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig	N
85310000	Gwasanaethau gwaith cymdeithasol	N
85311000	Gwasanaethau gwaith cymdeithasol gyda llety	N
85311100	Gwasanaethau lles ar gyfer yr henoed	N
85311200	Gwasanaethau lles ar gyfer pobl anabl	N
85311300	Gwasanaethau lles ar gyfer plant a phobl ifanc	N
85312000	Gwasanaethau gwaith cymdeithasol heb lety	N
85312100	Gwasanaethau gofal dydd	N
85312110	Gwasanaethau gofal dydd i blant	N
85312120	Gwasanaethau gofal dydd ar gyfer plant a phobl ifanc anabl	N
85312200	Danfôn cyflenwadau i'r cartref	N
85312300	Gwasanaethau arweiniad a chwnsela	N
85312310	Gwasanaethau arweiniad	N
85312320	Gwasanaethau cwnsela	N
85312330	Gwasanaethau cynllunio teulu	N
85312400	Gwasanaethau lles na chânt eu darparu drwy sefydliadau preswyl	N
85312500	Gwasanaethau adsefydlu	N
85312510	Gwasanaethau adsefydlu galwedigaethol	N

85320000	Gwasanaethau cymdeithasol	N
85321000	Gwasanaethau cymdeithasol gweinyddol	N
85322000	Rhaglen gweithredu cymunedol	N
85323000	Gwasanaethau iechyd cymunedol	N
98133000	Gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau aelodaeth gymdeithasol	N
98133100	Gwasanaethau cymorth cyfleusterau cymunedol a gwelliant dinesig	N
98200000	Gwasanaethau ymgynghori ar gyfleoedd cyfartal	
98500000	Aelwydydd preifat â phersonau cyflogedig	
98513000	Gwasanaethau llafurlu ar gyfer aelwydydd	
98513100	Gwasanaethau staff asiantaeth ar gyfer aelwydydd	
98513200	Gwasanaethau staff clercol ar gyfer aelwydydd	
98513300	Staff dros dro ar gyfer aelwydydd	
98513310	Gwasanaethau cymorth cartref	
98514000	Gwasanaethau domestig	
<i>Gwasanaethau cymdeithasol, addysgol, gofal iechyd a diwylliannol gweinyddol</i>		
75000000	Gwasanaethau gweinyddu, amddiffyn a nawdd cymdeithasol	
75121000	Gwasanaethau addysgol gweinyddol	N
75122000	Gwasanaethau gofal iechyd gweinyddol	N
75124000	Gwasanaethau hamdden, diwylliant a chrefydd gweinyddol	
79950000	Gwasanaethau trefnu arddangosfeydd, ffeiriau a chynadleddau	
79951000	Gwasanaethau trefnu seminarau	
79952000	Gwasanaethau digwyddiadau	
79952100	Gwasanaethau trefnu digwyddiadau diwylliannol	
79953000	Gwasanaethau trefnu gwyliau	

79954000	Gwasanaethau trefnu partïon	
79955000	Gwasanaethau trefnu sioeau ffasiwn	
79956000	Gwasanaethau trefnu ffeiriau ac arddangosfeydd	
79995000	Gwasanaethau rheoli llyfrgelloedd	
79995100	Gwasanaethau archifo	
79995200	Gwasanaethau catalogio	
80000000	Gwasanaethau addysg a hyfforddiant	
80100000	Gwasanaethau addysg gynradd	
80110000	Gwasanaethau addysg gyn ysgol	N
80200000	Gwasanaethau addysg uwchradd	
80210000	Gwasanaethau addysg uwchradd dechnegol a galwedigaethol	
80211000	Gwasanaethau addysg uwchradd dechnegol	
80212000	Gwasanaethau addysg uwchradd alwedigaethol	
80300000	Gwasanaethau addysg uwch	N
80310000	Gwasanaethau addysg ieuenctid	N
80320000	Gwasanaethau addysg feddygol	N
80330000	Gwasanaethau addysg diogelwch	N
80340000	Gwasanaethau addysg arbennig	N
80400000	Gwasanaethau addysg oedolion a gwasanaethau addysg eraill	
80410000	Gwasanaethau ysgol amrywiol	
80411000	Gwasanaethau ysgol yrru	
80411100	Gwasanaethau prawf gyrru	
80411200	Gwersi gyrru	
80412000	Gwasanaethau ysgol hedfan	
80413000	Gwasanaethau ysgol hwylio	
80414000	Gwasanaethau ysgol blymio	
80415000	Gwasanaethau hyfforddiant sgïo	
80420000	Gwasanaethau e-ddysgu	N
80430000	Gwasanaethau addysg oedolion ar lefel prifysgol	N

80490000	Gweithredu canolfan addysgol	
80500000	Gwasanaethau hyfforddi	
80510000	Gwasanaethau hyfforddi arbenigol	
80511000	Gwasanaethau hyfforddi staff	N
80512000	Gwasanaethau hyfforddi cŵn	
80513000	Gwasanaethau ysgol farchogaeth	
80520000	Cyfleusterau hyfforddi	N
80521000	Gwasanaethau rhaglenni hyfforddi	N
80522000	Seminarau hyfforddi	N
80530000	Gwasanaethau hyfforddiant galwedigaethol	
80531000	Gwasanaethau hyfforddiant diwydiannol a thechnegol	
80531100	Gwasanaethau hyfforddiant diwydiannol	
80531200	Gwasanaethau hyfforddiant technegol	
80532000	Gwasanaethau hyfforddiant rheoli	
80533000	Gwasanaethau ymgylchedd a hyfforddi defnyddwyr cyfrifiaduron	
80533100	Gwasanaethau hyfforddiant cyfrifiadurol	
80533200	Cyrsiau cyfrifiadur	
80540000	Gwasanaethau hyfforddiant amgylcheddol	
